



COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER

**Comisiynydd Heddlu a  
Throseddu Dyfed-Powys**

Adolygiad Craffu Dwys

o

**Ddull Heddlu Dyfed-Powys**

**o fynd i'r afael â chyffuriau anghyfreithlon**

**Ebrill 2019**

## Cynnwys

1.0 Crynodeb Gweithredol.....	4
2.0 Y canlyniad.....	7
3.0 Y sefyllfa.....	9
3.1 Y cefndir .....	9
3.2 Deddfau Cyffuriau'r DU.....	9
3.2.1 Y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau.....	9
3.2.2 Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016 .....	10
3.3 Y Defnydd Cenedlaethol o Gyffuriau .....	11
3.3.1 Mynediad at gyffuriau anghyfreithlon .....	11
3.4 Cyfreithloni Cenedlaethol.....	12
3.5 Effaith Ariannol a Chymdeithasol Cyffuriau Anghyfreithlon .....	12
3.6 Cymharu â Dulliau Gweithredu Rhyngwladol ar Gyffuriau .....	15
3.6.1 Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau .....	16
3.6.2 Triniaeth â Chymorth ar gyfer Heroin.....	18
3.7 Cyd-destun Ardal Heddlu Dyfed-Powys .....	19
3.7.1 Cannabis .....	21
3.7.2 Heroin .....	21
3.8 Dull Heddlu Dyfed-Powys o Fynd i'r Afael â Defnyddio Cyffuriau Anghyfreithlon.....	22
3.9 Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau .....	23
3.9.1 Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed .....	24
3.9.2 Cyfeiriadau at Ddarparwyr Gwasanaethau - Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed .....	24
3.9.3 Kaleidoscope .....	25
3.10 Strwythurau Sefydliadol.....	25
3.11 Proses Weithredol .....	28
3.11.1 Y Broses Gyhuddo .....	28
3.11.2 Stopio a Chwilio .....	29
3.11.3 Profi Wrth Arestio.....	31
3.11.4 Canlyniadau Troseddau Cyffuriau.....	32
3.12 Cudd-wybodaeth a Chyfathrebu .....	33

3.13 Cynllun Braenaru Dargyfeiriol Swyddfa'r CHTh .....	34
4.0 Canlyniadau.....	37
5.2 Camau gweithredu .....	39
6.0 Adolygiad.....	41
6.1 Nodau.....	41
6.2 Casgliadau.....	41
Atodiad A - Gwybodaeth am Ddosbarthiadau Cyffuriau a Dedfrydu .....	43
Atodiad B - Canlyniadau yn dilyn Stopio a Chwilio sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau .....	45

## 1.0 Crynodeb Gweithredol

Yng ngoleuni cyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throseddau i graffu ar effeithiolrwydd Heddlu Dyfed-Powys (yr 'Heddlu'), y cynnydd mewn Grwpiau Troseddau Trefnedig, yn ogystal â diddordeb y cyhoedd a chynnydd yn y sylw yn y wasg genedlaethol yn ddiweddar, cynhaliodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau (Swyddfa'r CHTH) adolygiad craffu dwys o effeithiolrwydd yr Heddlu o ran mynd i'r afael â chyffuriau anghyfreithlon ledled siroedd Dyfed a Phowys. Canfu'r adolygiad:

Fod Cynllun yr Heddlu a Throseddau 2017-2021<sup>1</sup> yn amlygu meysydd blaenoriaeth y CHTH mewn perthynas â throseddau trefnedig difrifol. Ymrwymodd y CHTH i "*adnabod a chwalu bygythiad grwpiau troseddau cyfundrefnol a gweithio gydag eraill i darfu gweithgarwch troseddau cyfundrefnol, yn benodol masnachu a chyflenwi cyffuriau dosbarth A*". Gwnaed gwaith helaeth i fynd i'r afael â chyffuriau anghyfreithlon yn ardal Dyfed-Powys. Dangosir hyn gan y cynnydd mewn troseddau masnachu cyffuriau rhwng 2016 a 2018; gyda chynnydd o 49% dros y cyfnod hwn. Mae'r cynnydd hwn yn deillio o gyfres o ymgyrchoedd i darfu ar droseddau cyffuriau; gan dargedu'r unigolion hynny sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau dosbarth A, yn ogystal â'r rhai sy'n rhan o grwpiau troseddau cyfundrefnol. Arweiniodd yr ymgyrchoedd hyn at arestio a chyhuddo 117 o unigolion (heb gynnwys yr ymgyrchoedd Regent a Cryptic), a gafodd ddedfryd gyfunol o 421 o flynyddoedd a 5 mis, ynghyd ag atafaelu cyffuriau dosbarth A (Heroin a Chocên) gwerth £23.6 miliwn.

Mae angen perthynas waith agosach rhwng yr heddlu a darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gan sicrhau bod protocol cyson ar waith, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r cyflenwad o sylweddau dosbarth A a'r galw amdanynt. Mae enghreifftiau blaenorol o hyn i'w gweld yn y cydweithio i nodi themâu allweddol sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn 2015 a 2016, a nododd nifer o wersi i'w dysgu gan bartneriaid.

Mae angen i swyddogion yr heddlu wneud mwy o ddefnydd o wasanaethau camddefnyddio sylweddau i adnabod ymddygiad troseddol a mynd i'r afael ag ef. Gellid gwneud mwy o ddefnydd o brosesau Profi wrth Arestio, ac mae angen gwell systemau TG i alluogi'r broses hon i fod mor effeithiol â phosibl. Nid yw'r arfer cofnodi presennol yn caniatáu i'r broses hon fod mor effeithiol â phosibl ac mae'n canolbwyntio ar sylweddau dosbarth A. Mae angen dull mwy cyfannol, sy'n cynnwys mwy o ddefnydd o'r cynllun Braenaru a chynnydd mewn rhybuddion amodol a datrysiadau cymunedol i oedolion lle mae cymryd rhan mewn gyda rhaglenni dargyfeiriol ymysg yr amodau. Mae canfyddiadau allweddol eraill o adroddiad mewnol Heddlu Dyfed-Powys (Mehefin 2017)<sup>2</sup> yn

<sup>1</sup> *Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys - Cynllun Heddlu a Throseddau 2017-2021*

<sup>2</sup> *Proffil o'r Broblem Heroin - Heddlu Dyfed-Powys - Mehefin 2017*

canolbwyntio ar y cynnydd mewn defnyddwyr rhaglenni cyfnewid nodwyddau a chwistrellau. Noda'r adroddiad fod nifer y chwistrellau sy'n cael eu dosbarthu i ddefnyddwyr heroin ledled Sir Benfro a Phowys wedi dyblu.

Mae Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau mewn gwledydd eraill wedi arwain at nifer o ganlyniadau cadarnhaol. Canfu'r gwerthusiad o fodel Copenhagen fod eu defnydd yn lleihau sbwriel a niwsans sy'n gysylltiedig â chyffuriau, yn darparu amgylchedd chwistrellu mwy diogel, yn caniatáu mynediad i ddefnyddwyr cyffuriau anodd eu cyrraedd yn ogystal â chynyddu mynediad at wasanaethau triniaeth a chymorth. Argymhellir bod y Comisiynydd Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl yn adolygu effeithiolrwydd Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau, o ran eu heffaith bosibl yn Nyfed-Powys a sut y maent yn cyd-fynd ag arferion plismona presennol.

Mae Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru yn hyrwyddo ffocws ar wella iechyd a llesiant ein poblogaeth, ac nid dim ond ar gamddefnyddio sylweddau. Mae angen dull system gyfan o ymdrin â'r gwaith hwn, gan gysylltu â phob partner ac ar draws asiantaethau i greu gwytnwch o fewn unigolion fel ffactor amddiffynnol.

Codwyd Cudd-wybodaeth yr Heddlu fel thema reolaidd gan swyddogion yr heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Mae cymunedau Dyfed-Powys yn darparu cudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau i swyddogion yr heddlu, ond yn aml nid yw hyn yn ddigon manwl i fod yn wybodaeth y gellir gweithredu arni. Gall hyn arwain at ddiffyg hyder ymysg y cyhoedd, canfyddiad nad yw'r heddlu yn gweithredu ar gudd-wybodaeth a ddarperir iddynt ac, yn y pen draw, lleihad yn y gudd-wybodaeth a ddarperir.

Mae swyddogion yr heddlu hefyd yn cyfeirio at y ffaith bod y broses o gyhuddo unigolion o droseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn hirwyntog ac maent yn aml yn teimlo na allant gyhuddo unigolion sy'n cael eu harestio mewn modd amserol. Ymddengys fod dau reswm am hyn; yr angen i anfon sylweddau rheoledig i gael eu profi'n allanol a'r angen i anfon ffonau symudol i'r Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddau (DCCU). Yn ystod yr adolygiad hwn adolygwyd y broses o brofi sylweddau yn nalfar heddlu. Arweiniodd hyn at ddarparu hyfforddiant arbennig i swyddogion yr heddlu i allu profi sylweddau gan ddefnyddio proses gymeradwy'r Swyddfa Gartref, Profion Adnabod Cyffuriau Tystiolaethol (EDIT). Roedd peilot hefyd yn cael ei gynnal yn Sir Benfro, gydag Ymchwilydd Cyfryngau Digidol yn gweithio yn yr ardal hon. Nod hyn oedd lleihau'r amser sydd ei angen i archwilio ffôn symudol. Argymhellir bod y cynllun peilot hwn yn cael ei werthuso i ddangos unrhyw fanteision ac i asesu'r posibilrwydd o'i gyflwyno ar draws ardal yr Heddlu.

Felly mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn argymhell y dylai'r Heddlu:

1. Ymgysylltu â phartneriaid ar gam cynllunio cynnar wrth gynnal ymgyrchoedd tarfu ar droseddau cyffuriau er mwyn sicrhau cefnogaeth pob partner, gan gynnwys asiantaethau partner fel CrimeStoppers i gynnal ymgyrchoedd casglu cudd-wybodaeth mewn ardaloedd lleol lle mae cyffuriau'n broblem.
2. Datblygu protocol cyson ar 'gyflenwi cyffuriau a thriniaeth ar gyfer cyffuriau' rhwng Heddlu Dyfed-Powys a darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol.
3. Rhoi diweddariad ar y cynllun gweithredu Profi Wrth Arestio a grëwyd fel rhan o ddogfen Gwelliant Parhaus 2017, i gynnwys:
  - i. sicrhau bod holl swyddogion yr heddlu yn ymwybodol o bwysigrwydd y broses Profi Wrth Arestio a'r rhan y mae'n ei chwarae o ran cael mynediad i driniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau;
  - ii. rhoi proses electronig ar waith ar gyfer cofnodi achosion o Brofi wrth Arestio, sy'n caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei hechdynnu'n hawdd a'i chymharu yn erbyn troseddau sbardun ym mhob rhanbarth;
  - iii. creu system fflagio electronig i hysbysu staff y ddalfa pan gaiff unigolyn ei arestio am drosedd sbardun; a
  - iv. rhoi dull ar waith i drosglwyddo cyfeiriadau yn electronig i ddarparwyr camddefnyddio sylweddau yn dilyn prawf cadarnhaol.
4. Gweithredu'r cynllun Braenaru ar draws ardal Dyfed-Powys, gan ddarparu strwythur gweithredol cadarn sy'n cefnogi cyfeirio pobl at y cynllun a chyflwyno model gwaredu dwy haen y tu allan i'r llys.
5. Adolygu effeithiolrwydd Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau o ran eu heffaith bosibl o fewn ardal Dyfed-Powys mewn perthynas â lleihau niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau.
6. Gyda chefnogaeth y CHTH, ymgysylltu â'r Bwrdd Cynllunio Ardal i gefnogi'r agenda atal ehangach, gan gyflwyno dull gweithredu traws-sefydliadol.
7. Sicrhau bod yr arferion gorau a amlygwyd yn y gwaith 'Pwyntiau Dysgu Allweddol o ran Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau' yn cael eu hymgorffori yng ngwaith yr Heddlu.
8. Adolygu'r canlyniadau yn dilyn defnyddio stopio a chwilio, i sicrhau bod y rhain yn cael eu cymhwyso'n briodol ac yn gyson a'u bod yn cyd-fynd â pholisi'r Heddlu.

9. Cynnal gwerthusiad o'r defnydd o'r cynllun peilot Ymchwilydd y Cyfryngau Digidol yn Sir Benfro i nodi manteision posibl cyflwyno hyn ledled ardal yr Heddlu.

## 2.0 Y canlyniad

Mae'r adolygiad hwn yn cyfrannu at y Cynllun Heddlu a Throseddau<sup>3</sup> drwy gefnogi'r blaenoriaethau:

- Mynd i'r afael â'r niwed a achosir gan gamddefnyddio sylweddau (Blaenoriaeth 1 - Cadw ein cymunedau'n ddiogel)
- Gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i darfu ar droseddau difrifol a throseddau trefnedig (Blaenoriaeth 3 - Amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol)
- Sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth gweladwy a hygyrch (Blaenoriaeth 4 - Cysylltu gyda chymunedau)

Nod yr adolygiad oedd nodi:

1. Ymateb presennol yr Heddlu i fynd i'r afael â'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon;
2. Effeithiolrwydd yr Heddlu o ran mynd i'r afael â'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon;
3. Cysondeb o ran gweithredu polisi cyffuriau'r Heddlu;
4. Effaith dull yr Heddlu o fynd i'r afael â'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon ar gymunedau lleol; a
5. Gwasanaethau triniaeth cyffuriau lleol a'u heffeithiolrwydd.

Drwy:

- a. Nodi strategaeth bresennol yr Heddlu o ran mynd i'r afael â defnyddio cyffuriau dosbarth A ar draws Dyfed-Powys;
- b. Nodi'r nifer sy'n defnyddio prosesau i adnabod a thrin y rhai y mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio arnynt;
- c. Nodi faint o adnoddau sy'n cael eu defnyddio mewn ymateb uniongyrchol i ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon;
- ch. Amlygu meysydd arfer da ac unrhyw feysydd y gellid gwella arnynt;

---

<sup>1</sup> [www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/2008/dyfed-powys-police-plan-final-cymraeg.pdf](http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/2008/dyfed-powys-police-plan-final-cymraeg.pdf)

- d. Holi barn y cyhoedd yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau ar gyffuriau anghyfreithlon a pha mor effeithiol y mae'r Heddlu'n mynd i'r afael â hwy.



## 3.0 Y sefyllfa

### 3.1 Y cefndir

Ysgogwyd yr adolygiad hwn gan nifer o ffactorau, sef:

- Troseddau Trefnedig Difrifol a llinellau cyffuriau a ddaeth i'r amlwg ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.
- Mae Strategaeth Rheoli Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys 'cyffuriau dosbarth A a sylweddau seicoweithredol.'
- Yn ystod sioe Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru 2018 a sioe Cymdeithas Amaethyddol Sir Benfro, gofynnwyd am farn y cyhoedd ynghylch yr hyn y dylai'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu graffu arno. Roedd mynd i'r afael â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ar frig eu rhestr.
- Dadl genedlaethol ynghylch y posibilrwydd o ailddosbarthu rhai cyffuriau, yn enwedig canabis, gan gynnwys defnyddio cynhyrchion canabis at ddibenion meddyginiaethol.
- Mae rhai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ledled y DU yn cefnogi sefydlu Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau.

### 3.2 Deddfau Cyffuriau'r DU

Mae tri phrif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n rheoleiddio argaeledd cyffuriau yn y DU:

- Y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau (1971)
- Y Ddeddf Meddyginiaethau (1968)
- Y Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol (2016)

#### 3.2.1 Y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau

Bwriad y Ddeddf hon yw atal y defnydd anfeddygol o rai cyffuriau. Gelwir cyffuriau a gwmpesir o dan y ddeddf hon yn 'gyffuriau rheoledig'. Mae'r gyfraith yn diffinio cyfres o droseddau mewn perthynas â chyffuriau gan gynnwys: cyflenwi anghyfreithlon, bwriad i gyflenwi, mewnfario neu allfario yn ogystal â chynhyrchu anghyfreithlon. Mae'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau hefyd yn gwahardd meddiant anghyfreithlon. Er mwyn gallu gorfodi'r cyfreithiau hyn, mae gan yr heddlu bwerau i stopio, cadw a chwilio pobl ar 'amheuaeth resymol,' os ydynt yn credu bod cyffur rheoledig yn eu meddiant. Mae tabl yn rhoi manylion y gwahanol ddsbarthiadau cyffuriau, ynghyd â'r dedfrydau posibl o garchar, i'w gweld yn Atodiad A.

### 3.2.2 Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016

Derbyniodd y Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol Gydsyniad Brenhinol ar 28 Ionawr 2016 a daeth i rym ar 26 Mai 2016. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i'r DU gyfan ac mae'n ei gwneud yn drosedd cynhyrchu, cyflenwi, cynnig cyflenwi, meddu ar y sylweddau hyn yn y ddalfa, mewnfario neu allfario sylweddau seicoweithredol; hynny yw, unrhyw sylwedd y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan bobl sy'n gallu cynhyrchu effaith seicoweithredol. Y ddeddfryd fwyaf ar gyfer hyn fyddai 7 mlynedd o garchar.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys rhai esemptiadau sy'n eithrio sylweddau cyfreithlon fel bwyd, alcohol, tybaco, nicotin, caffein a chynhyrchion meddygol o gwmpas y Ddeddf. Mae hefyd yn esemptio cyffuriau rheoledig sy'n parhau i gael eu cwmpasu gan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer sancsiynau sifil gan gynnwys hysbysiadau a gorchmynion gwahardd yn ogystal â darparu pwerau'r heddlu i stopio a chwilio pobl, cerbydau a llongau, mynd i mewn i fangreoedd a'u chwilio gyda gwarant ac atafaelu a dinistrio sylweddau seicoweithredol.

Mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (yr Arolwg Troseddau) wedi gofyn cwestiynau ar rai agweddau ar ddefnyddio Sylweddau Seicoweithredol Newydd ers 2014/15. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai cyfraddau uchel o boblogaeth y carchardai a'r gymuned ddigartref fod yn defnyddio'r sylweddau hyn. Gan nad yw'r grwpiau hyn yn cael eu cofnodi yn yr Arolwg Troseddau, mae'n debygol bod y defnydd cyffredinol o Sylweddau Seicoweithredol Newydd yn cael ei danadrodd a'i danamcangyfrif ar draws holl boblogaeth y DU.

Canfyddiadau allweddol yr Arolwg Troseddau mewn perthynas â Sylweddau Seicoweithredol Newydd yw nad yw eu defnydd cyffredinol wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2017/18), gyda thua 0.4% o oedolion 16 i 59 oed yn defnyddio'r sylweddau hyn yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cyfateb i tua 121,000 o oedolion. Mae'r ffigur hwn yn parhau i fod yn gyson â 2016/17, fodd bynnag, bu gostyngiad bach o gymharu â 2015/16 (0.5%). Mae'r canfyddiadau sy'n destun mwy o bryder yn ymwneud â demograffeg oedran yr oedolion hynny sy'n defnyddio Sylweddau Seicoweithredol Newydd, gyda thua hanner ohonynt rhwng 16 a 24 oed. Mae'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn cymryd Sylweddau Seicoweithredol Newydd yn cynyddu os byddant yn mynd i dafarn neu glwb nos, yn yfed alcohol neu'n defnyddio cyffur arall<sup>4</sup>. Mae hyn yn golygu mai'r grŵp oedran hwn sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddod i gysylltiad â Sylweddau Seicoweithredol Newydd.

Adroddodd Arolwg Troseddau 2017/18 hefyd ar y defnydd o Ocsid Nitraidd (a elwir yn nwy chwerthin) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er bod Ocsid Nitraidd

<sup>4</sup> *Camddefnyddio Cyffuriau: Canfyddiadau o Arolwg Trosedd 2017/18 ar gyfer Cymru a Lloegr*

wedi'i gynnwys yn y Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol, mae'n dal yn gyfreithiol i'w werthu at ddibenion cyfreithlon. Fel gyda Sylweddau Seicoweithredol Newydd eraill, mae'r defnydd o Ocsid Nitraidd yn fwyaf cyffredin ymysg oedolion 16 i 24 oed gydag 8.8% yn adrodd eu bod wedi defnyddio sylwedd o'r fath rywbryd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Pan gaiff y rhywiau eu cymharu, mae dynion yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio ocsid nitraidd na menywod (2.9% o'i gymharu ag 1.8%). Er bod y ffigur hwn yn ymddangos yn isel, mae hyn yn cyfateb i 758,000 o unigolion yn y DU sydd wedi defnyddio'r sylwedd hwn dros y flwyddyn ddiwethaf.

### 3.3 Y Defnydd Cenedlaethol o Gyffuriau

Er bod y duedd gyffredinol o ddefnyddio cyffuriau ymysg oedolion 16 i 59 oed wedi dirywio'n gyson ers 1996<sup>5</sup>, mae'r defnydd o gyffuriau dosbarth A ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed wedi bod yn cynyddu ers 2011/12. Yn ogystal â defnyddio cyffuriau dosbarth A, canabis oedd y cyffur a ddefnyddiwyd amlaf yn 2017/18 ac roedd 7.2% o oedolion 16 i 59 oed wedi defnyddio'r cyffur yn ystod y cyfnod hwn.

Y defnydd o gocên powdwr oedd yr ail sylwedd mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd gan oedolion 16 i 59 oed o hyd. Er bod y duedd gyffredinol o ddefnyddio cocên powdwr ymhlith pobl ifanc 16 i 59 oed wedi gostwng rhwng 2003/04 a'r flwyddyn gyffredol, mae hyn yn llai sefydlog o'i gymharu â phobl ifanc 16 i 24 oed, lle mae'r defnydd o gocên powdwr wedi amrywio lawer mwy. Ers 2012/13 bu cynnydd cyffredinol yn ei ddefnydd ac roedd tua 6% bobl 16 i 24 oed wedi defnyddio cocên powdwr yn ystod 2017/18.

#### 3.3.1 Mynediad at gyffuriau anghyfreithlon

Ystyriodd Arolwg Troseddau 2017/18 pa mor hawdd yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar gyffuriau. Roedd tua thraean o oedolion 16 i 59 oed yn teimlo y byddai'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' iddynt gael cyffuriau anghyfreithlon o fewn 24 awr; dywedodd traean o'r rhai a holwyd y byddent yn ei chael yn 'eithaf anodd' i gael cyffuriau. Dywedodd 40% o'r dynion a ymatebodd y gallent gael gafael ar gyffuriau yn 'hawdd' o fewn 24 awr. Yn ôl y disgwyl, roedd y rhai a oedd wedi cymryd cyffuriau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ddwywaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gallu cael gafael ar gyffuriau yn hawdd o gymharu â'r rhai nad oeddent wedi cymryd cyffuriau o'r blaen.

Caiff yr uchod ei adleisio os edrychir ar ba mor hawdd yw gallu cael mynediad at Sylweddau Seicoweithredol Newydd, gyda'r rhai 16 i 24 oed yn teimlo'n fwy abl i

<sup>5</sup> Y Swyddfa Gartref – Camddefnyddio Cyffuriau: Canfyddiadau o Arolwg Troseddau 2017/18 ar gyfer Cymru a Lloegr

gael mynediad at y sylweddau hyn na'r grŵp oedran ehangach o bobl rhwng 16 a 59 oed.

### 3.4 Cyfreithloni Cenedlaethol

Yn y DU, newidiodd y ddeddfwriaeth ar ddefnyddio canabis o 1 Tachwedd 2018 ymlaen. Cyn y dyddiad hwn, roedd bron pob cynnyrch meddyginiaethol a oedd yn seiliedig ar ganabis yn gyffuriau Atodlen Un, sy'n golygu nad ystyriwyd bod ganddynt werth therapiwtig. Ni allai unrhyw gyffuriau sy'n cael eu dosbarthu fel cyffuriau Atodlen Un gael eu rhagnodi'n gyfreithlon yn y DU heb drwydded arbennig gan y Swyddfa Gartref.

Daeth y newid yn y gyfraith ar ôl i'r Ysgrifennydd Cartref alw am adolygiad brys o gynhyrchion meddyginiaethol sy'n seiliedig ar ganabis. Derbyniwyd argymhellion gan y Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Phrif Gynghorydd Meddygol y DU, sy'n golygu nad oes gofyniad bellach i feddygon ofyn am gymeradwyaeth gan banel arbenigol er mwyn i gleifion gael mynediad at feddyginiaethau. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ragnodi gael ei wneud gan feddyg arbenigol ac nid gan Ymarferydd Cyffredinol. Rhaid i bob penderfyniad i ragnodi fod yn seiliedig ar ei rinweddau unigol a dim ond pan fydd gan y claf angen clinigol arbennig na ellir ei drin gyda chynhyrchion meddyginiaethol trwyddedig y dylid rhagnodi cynhyrchion sy'n seiliedig ar ganabis.

Dylid nodi, ar ôl newid y gyfraith mewn perthynas â'r uchod, bod yr Ysgrifennydd Cartref wedi nodi'n glir na fyddai hyn yn effeithio ar y cyfreithiau sy'n ymwneud â chanabis heb ei ragnodi, lle mae'r cosbau am feddiant a chyflenwi yn aros yr un fath. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys yn parhau i drafod y mater hwn gyda grwpiau lobiö cenedlaethol a lleol sy'n galw am gyfreithloni canabis yn ogystal â'r gallu i dyfu canabis at ddefnydd personol meddyginiaethol.


### 3.5 Effaith Ariannol a Chymdeithasol Cyffuriau Anghyfreithlon

Mae cost cyffuriau anghyfreithlon yn y DU yn cynnwys llawer o ffactorau gan gynnwys y gost i'r gwasanaeth iechyd, cost gorfodi, cost marwolaethau sy'n gysylltiedig â sylweddau anghyfreithlon yn ogystal â throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.

Yn gyffredinol, mae cyfanswm y bobl sy'n cymryd cyffuriau yn y DU wedi lleihau'n gyson ers troad y ganrif; mae'r ffigurau wedi aros yn weddol sefydlog ers 2009. Er bod gostyngiad o'r fath yn addawol, mae cyfradd y marwolaethau ymysg defnyddwyr cyffuriau yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu'n raddol ers

1996, gyda'r nifer fwyaf o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cofrestru yn 2016 (2,593 o farwolaethau). Er bod y gyfradd ar gyfer defnyddwyr cyffuriau benywaidd wedi cynyddu'n gyson, mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ymysg dynion wedi cynyddu'n sydyn dros y tair blynedd sy'n arwain at 2016, lle y cofnodwyd 67.1 o farwolaethau fesul miliwn o'r boblogaeth. Nododd Public Health England fod cynnydd penodol wedi bod yn y marwolaethau sy'n gysylltiedig â defnyddio heroin a morffin.

Mae'r darlun yng Nghymru yn dilyn patrwm tebyg, gyda chynnydd sydyn mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau o 2003 i 2016, lle y gwelir y ffigur blynyddol yn mwy na dyblu, o 79 yn 2003 i 180 yn 2016.



Mewn adroddiad yn 2016<sup>6</sup>, cymharodd y Cyngor Cyngori ar Gamddefnyddio Cyffuriau farwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag opioidau yn y DU gan nodi cynnydd o 23% yng Nghymru rhwng 2012 a 2015. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod hyn yn bennaf oherwydd carfan sy'n heneiddio o ddefnyddwyr heroin a chanddynt anghenion iechyd a chymdeithasol cymhleth. Ategir hyn gan ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol<sup>7</sup>, sy'n amlygu cynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n

<sup>6</sup> Cyngor Cyngori ar Gamddefnyddio Cyffuriau – Lleihau Nifer y Marwolaethau sy'n gysylltiedig ag opioidau yn y DU

<sup>7</sup> Y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol – Marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwenwyno drwy gyffuriau yng Nghymru a Lloegr: Cofrestradau 2016

gysylltiedig â chyffuriau ymhlith pobl ifanc rhwng 40 a 70 oed rhwng 2012 a 2016, o'i gymharu â grwpiau oedran eraill.


Oherwydd y cynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Hydref 2016, gwnaed darn sylweddol o waith ar y cyd rhwng Heddlu Dyfed-Powys a Bwrdd Iechyd Hywel Dda i fynd i'r afael â'r mater. Roedd hyn yn cynnwys dull amlasiantaeth i nodi gwersi allweddol sy'n cael eu dysgu o'r marwolaethau trasig hyn. Nod y gwaith hwn oedd rhoi canllawiau Llywodraeth Cymru ar waith ar adolygu gorddosau angheuol a heb fod yn angheuol. Goruchwyliwyd y cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu hwn gan y Bwrdd Cynllunio Ardal, y Grŵp Triniaeth a Lleihau Niwed a grŵp Gorchwyl a Gorffen Amlasiantaeth sy'n gysylltiedig â Chyffuriau. Nododd y grwpiau hyn yr effaith y gall rhyddhau o'r carchar ei chael ar unigolion a'r risg y gall dychwelyd i ddefnyddio cyffuriau ar ôl eu rhyddhau ei hachosi, gan gyfrannu at y risg o orddos yn gysylltiedig â chyffuriau. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn cydnabod y problemau y mae cyffuriau'n eu hachosi yn y carchar a sut y gall hyn dreiddio y tu hwnt i furiau'r carchar ac yn ôl i'r gymuned. Nod Strategaeth Cyffuriau Genedlaethol ar gyfer Carchardai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yw cyfyngu ar y cyflenwad, lleihau'r galw a meithrin adferiad drwy greu strategaethau wedi'u teilwra ym mhob carchar gyda champau a chyfrifoldebau clir. Nod hyn yw nid yn unig creu carchardai mwy diogel, ond hefyd tarfu ar weithgarwch grwpiau troseddau trefnedig a gangiau troseddol sy'n aml yn manteisio ar bobl sy'n agored i niwed yn y gymuned.

Mae argaeledd tai hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y broses hon, yn ogystal ag argaeledd gwasanaethau cymorth digonol ar gamddefnyddio sylweddau i gefnogi'r rhai sy'n gadael y carchar. Heb hyn, mae'r risg o orddosau o gyffuriau a marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn llawer mwy. Ymhlith canfyddiadau allweddol y gwaith 'Pwyntiau Dysgu Allweddol am Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau' roedd materion a oedd yn arbennig o berthnasol i bartneriaid cyfiawnder troseddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- unigolion wedi dod i gysylltiad â'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol droeon gan gynnwys cysylltiad uniongyrchol â'r heddlu â phatrymau troseddu cysylltiedig;
- yr angen i gymryd camau ar achosion o dorri rheolau ac, mewn rhai achosion, gall galw rhywun yn ôl i'r carchar fod yn ffactor amddiffynnol hyd yn oed; a
- mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cymorth eraill yn y carchar.

Mae angen i'r camau gweithredu a'r pwyntiau dysgu allweddol o'r gwaith hwn gael eu hymgorffori mewn gwaith plismona arferol.

Mae'r isod yn dangos dadansoddiad o'r holl farwolaethau yn sgil gwenwyno gan gyffuriau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr yn 2016:



Gall camddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau arwain at amrywiol fathau o niwed i ddefnyddwyr cyffuriau gan gynnwys; iechyd corfforol a meddyliol gwael (ac yn y pen draw marwolaeth), diweithdra, digartrefedd, chwalfa deuluol a gweithgarwch troseddol. Er bod hyn yn effeithio ar y sawl sy'n defnyddio cyffuriau, mae yna hefyd effeithiau hysbys ar y bobl hynny sy'n agos at y defnyddiwr, yn ogystal â'r gymdeithas ehangach. Amcangyfrifodd y Swyddfa Gartref mai cost cyffuriau anghyfreithlon yn y DU yn 2010/11 oedd £10.7 biliwn y flwyddyn. Mae hyn wedi'i rannu'n 4 maes allweddol:

- Y defnydd o Wasanaethau Iechyd - 8%
- Gorfodi - 10%
- Marwolaethau sy'n gysylltiedig ag wyth sylwedd anghyfreithlon - 28%
- Troseddau'n ymwneud â chyffuriau - 54%

Ledled y DU, mae Grwpiau Troseddu Trefnedig yn cynhyrchu, yn cyflenwi ac yn dosbarthu cyffuriau anghyfreithlon ar draws ein cymunedau. Yn ddiamau bydd enghreifftiau llai eraill lle mae cyffuriau anghyfreithlon yn cael eu cynhyrchu gan unigolion at ddefnydd personol, fodd bynnag, mae'r rhain ar raddfa lawer llai.

### 3.6 Cymharu â Dulliau Gweithredu Rhyngwladol ar Gyffuriau

Er mwyn deall yn iawn sut orau i fynd i'r afael â'r defnydd a'r cyflenwad o gyffuriau anghyfreithlon yn Nyfed-Powys, mae'n allweddol deall sut mae polisi cyffuriau yn cael ei gyflawni mewn gwledydd eraill a rhai o'r ffactorau sy'n effeithio ar y defnydd o gyffuriau anghyfreithlon yn eu cymunedau. Adroddodd y Swyddfa Gartref ar sawl agwedd wahanol ar bolisi cyffuriau yn ei hadroddiad ar

gymaryddion rhyngwladol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014<sup>8</sup>. Crynhoir y dulliau gweithredu hyn isod:

### 3.6.1 Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau

Cyfleusterau sy'n cael eu goruchwylio gan staff meddygol lle y gall defnyddwyr cyffuriau ddod â'u cyffuriau eu hunain, y maent wedi'u prynu'n anghyfreithlon, i'w defnyddio o dan oruchwyliaeth ofalus ac i ffwrdd o fannau cyhoeddus yw Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau. Gall y cyfleusterau hyn weithredu yn unol â sawl model gwahanol, fodd bynnag mae eu nodweddion cyffredinol yn cynnwys:

- sgrinio neu asesu defnyddwyr wrth iddynt gyrraedd;
- darparu cyfarpar di-haint, megis nodwyddau;
- staff sydd wedi cael hyfforddiant meddygol;
- cydsyniad a chydweithrediad yr heddlu lleol;
- cysylltiadau â gwasanaethau eraill megis triniaeth a chwmsela.

Yr hyn sy'n allweddol i'w nodi yw'r ffocws ar ddarparu amgylchedd diogel i gymryd cyffuriau dan oruchwyliaeth feddygol sy'n cael ei fonitro gan staff meddygol. Ei nod yw lleihau'r posibilrwydd o orddosau sy'n gysylltiedig â chyffuriau sy'n arwain at Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau. Eu diben eilaidd yw cael mynediad uniongyrchol at ddefnyddwyr cyffuriau i gynnig cyngor iddynt ar driniaeth, gyda chysylltiad uniongyrchol â gwasanaethau triniaeth cyffuriau er mwyn cyfeirio pobl atynt.


Cynhaliodd y Swyddfa Gartref adolygiad manwl o'r Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau yn Copenhagen. Mae'r defnydd o gyffuriau yn Copenhagen ychydig yn wahanol i Gymru. Cocên yw'r sylwedd mwyaf cyffredin yno a cheir llawer llai o ddefnydd heroin. Adlewyrchwyd hyn yn nifer y defnyddwyr a oedd yn defnyddio'r Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau ac ar draws y gwahanol Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau yn Nenmarc gyfan adroddwyd yr isod:

- Nid oedd tua hanner y defnyddwyr cyffredinol yn hanu o Copenhagen, ac roedd llawer o bobl yn teithio cryn bellter i gael mynediad i'r gwasanaeth hwn.
- Mae llawer o'r capasiti yn cael ei ddefnyddio gan nifer fach o ddefnyddwyr rheolaidd.
- Mae'r galw am gyfleusterau ysmegu yn fwy na'r cyflenwad.
- Mae'r galw am y cyfleusterau wedi cynyddu'n sylweddol, ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd y nifer yn sefydlog, sef 3,800 o ymweliadau yr wythnos.

Mae'r siart isod yn dangos y cynnydd yn yr Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau yn Copenhagen yn ystod y flwyddyn:

<sup>8</sup> Y Swyddfa Gartref - Cyffuriau: Cymaryddion Rhyngwladol





Ffigur 4.1: Niferoedd a oedd yn cymryd cyffuriau yn Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau Copenhagen yn ystod 2013 (Ffynhonnell: Dinas Copenhagen, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol)

Mae Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau yn gyffredin mewn llawer o wledydd ar draws y byd gan gynnwys y Swistir, Denmarc, Canada, yr Almaen, Awstralia, yr Iseldiroedd, Norwy, Sbaen a Lwcsembwrg.

Cynhaliwyd gwerthusiad o Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau fel rhan o adroddiad Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (EMCDDA) yn dwyn y teitl 'Hard Reduction: evidence, impacts and challenges'<sup>9</sup>. Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad fod digon o dystiolaeth yn gyffredinol i gefnogi'r manteision allweddol a nodir isod mewn perthynas ag Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau:

- **Lleihad yn y defnydd cyhoeddus o gyffuriau a niwsans cysylltiedig**

Effaith defnyddio Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau oedd lleihad mewn defnyddio cyffuriau'n gyhoeddus a niwsans cyhoeddus yn ystod eu horiau agor, gyda thrigolion lleol yn ymgyrchu dros oriau agor hwy. Canfu'r ymchwil hefyd nad oedd unrhyw dystiolaeth o gynnydd mewn troseddau meddiangar, fodd bynnag roedd rhywfaint o ddelio cyffuriau ar raddfa fach yn yr ardal leol.

- **Darparu amgylchedd chwistrellu mwy diogel**

Canfu'r adroddiad fod Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau yn darparu amgylchedd risg is, mwy diogel i bobl chwistrellu cyffuriau yn eu cymunedau a dywedodd y rhai a oedd yn defnyddio sylweddau anghyfreithlon eu bod yn ymddwyn mewn ffordd sy'n peri llai o risg iddynt oherwydd y cyfleuster Ystafell Cymryd Cyffuriau.

<sup>9</sup> <http://www.dldocs.stir.ac.uk/documents/EMCDDA-monograph10-harm%20reduction.pdf>

- **Targeddu defnyddwyr sy'n anodd eu cyrraedd**

Roedd yr Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau yn llwyddiannus o ran caniatáu mynediad at gymunedau o ddefnyddwyr cyffuriau sy'n anodd eu cyrraedd, yn bennaf defnyddwyr ar y stryd a mwy o ddefnyddwyr hirdymor. Ni chanfu'r adroddiad unrhyw dystiolaeth fod yr Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau yn ysgogi defnyddwyr newydd i chwistrellu cyffuriau.

- **Mwy o fynediad at wasanaethau cymdeithasol, iechyd a thriniaeth cyffuriau**

Canfu'r adroddiad fod Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau wedi cynyddu mynediad at wasanaethau triniaeth cyffuriau a hefyd wedi lleihau'r stigma ynghylch dibyniaeth ar gyffuriau.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae bil wrthi'n cael ei ystyried yn Senedd y DU i gyfreithloni'r defnydd o gyfleusterau tebyg i ystafelloedd cymryd cyffuriau yn y DU. Cafodd y 'Bil Cyfleusterau Cymryd Cyffuriau dan Oruchwyliaeth 2017-2019' ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 14 Mawrth 2018. Pe bai'r Bil yn cael ei basio byddai'n arwain at ddiwygiadau i Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 ynghyd â'r gofyniad am adroddiadau blynyddol gan yr Ysgrifennydd Gwladol; yn manylu ar lefel y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, achosion o chwistrellu cyffuriau ar y stryd a nifer y nodwyddau a deflir ymaith ymhlith gofynion eraill. Mae'r Bil hwn yn dangos symudiad tuag at ddull mwy ataliol sy'n seiliedig ar driniaeth o gefnogi'r rhai y mae camddefnyddio sylweddau'n effeithio arnynt, a'r effaith y gall hyn ei chael ar y gymuned gymdeithasol ehangach.

### 3.6.2 Triniaeth â Chymorth ar gyfer Heroin

Mae Triniaeth â Chymorth ar gyfer Heroin (HAT) yn debyg i'r cysyniad Ystafell Cymryd Cyffuriau, ond dim ond ar gyfer chwistrellu heroin yn ddiogel. Mae'r cyfleuster hwn yn galluogi defnyddwyr heroin, gyda chymorth staff sydd wedi cael hyfforddiant meddygol, i chwistrellu heroin pur yn ddiogel o dan oruchwyliaeth ofalus. Mae'r cyfleusterau hyn yn bennaf ar gyfer trin yr unigolion hynny sy'n defnyddio cyffuriau'n gyson ac sy'n ddibynnol ar heroin, lle mae triniaethau cyffuriau eraill wedi bod yn aneffeithiol.

Mae cyfleusterau Triniaeth â Chymorth ar gyfer Heroin yn gofyn am roi pigladau o ddiamorffin yn rheolaidd i gleifion, gyda rhai angen pigladau niferus bob dydd yn ystod rhaglen. Mae'r cyfleusterau hyn yn wahanol i Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau yn hyn o beth, gan fod gradd y cyffuriau a roddir i gleifion yn radd feddygol ac felly mae angen mwy o oruchwyliaeth, gan sicrhau nad yw diamorffin yn cael ei ddargyfeirio i'r farchnad ddu. Mae hyn ynghyd ag amllder y rhaglen chwistrellu yn golygu bod cyfleusterau Triniaeth â Chymorth ar gyfer Heroin yn ddrud.

Y prif wahaniaeth rhwng Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau a Thriniaeth â Chymorth ar gyfer Heroin yw bod y Driniaeth â Chymorth ar gyfer Heroin yn canolbwyntio llai ar adfer o gaethiwed ac yn fwy ar symud tuag at nodau eraill fel lleihau'r defnydd o sylweddau anghyfreithlon, lleihau patrymau troseddu, gwell iechyd a gweithrediad cymdeithasol. Astudiodd adroddiad y Swyddfa Gartref<sup>10</sup> Driniaeth â Chymorth ar gyfer Heroin yn y Swistir a oedd yn *anelu at greu sefydlogrwydd ym mywydau defnyddwyr drwy sefydlu strwythur o amgylch yr apwyntiadau rheolaidd a hwyluso cyswllt â gwasanaethau cymdeithasol a chyingor a chymorth ehangach ar iechyd.*

Ers cyflwyno Triniaeth â Chymorth ar gyfer Heroin yn y Swistir yn 1994, mae'r DU wedi treialu'r dull triniaeth hwn mewn tri safle yn Lloegr (Llundain, Brighton a Darlington) yn 2009. Canfu treialon y DU fod gan y driniaeth fanteision iechyd i'r rhai a gymerodd ran yn y treial, ond hefyd bod gostyngiad o ddwy ran o dair ar gyfartaledd mewn troseddau meddiangar - o tua 40 i 13 o droseddau y mis, fesul unigolyn<sup>11</sup>.

### 3.7 Cyd-destun Ardal Heddlu Dyfed-Powys


Dros y blynyddoedd diwethaf mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld cynnydd yn nifer y grwpiau troseddu trefnedig sy'n gweithredu llinellau cyffuriau ar draws ffiniau Dyfed a Phowys. Fel arfer mae llinellau cyffuriau yn cynnwys grŵp (nad yw'n gang o anghenraid) yn sefydlu rhwydwaith rhwng canolfan drefol a lleoliad sirol, gan gyflenwi cyffuriau iddo. Mae'r grwpiau'n targedu pobl fregus yn y lleoliad sirol, gan fanteisio arnynt yn rheolaidd i deithio rhwng y trefi a'r siroedd i ailgyflenwi stoc a dosbarthu arian parod.

Mae llinellau cyffuriau wedi arwain at gynnydd yn y defnydd o gyffuriau a'r cyflenwad ohonynt mewn rhai rhannau o Ddyfed-Powys, sef Powys a Llanelli yn bennaf. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymwybodol o effaith gweithgareddau'r grwpiau troseddu trefnedig a llinellau cyffuriau hyn a'r tactegau treisgar difrifol y gall y grwpiau hyn eu defnyddio. Eir i'r afael â'r rhain drwy sawl ymgyrch gan yr Heddlu, a drafodir yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adolygiad hwn.

Mae'r graffiau isod yn dangos nifer y troseddau cyffuriau o 2015 i 2018 yn Nyfed-Powys, ynghyd â dadansoddiad o'r troseddau hyn yn ôl meddiant neu fasnachu.

<sup>10</sup> Y Swyddfa Gartref - Cyffuriau: Cymaryddion Rhyngwladol

<sup>11</sup> BMJ, (2009), 'Heroin clinics reduce street drug use and crime, shows study'



Er y bu gostyngiad cyffredinol mewn troseddau cyffuriau, gellir gweld cynnydd o bron i 100 mewn troseddau masnachu o 2016 i 2018 (196 i 293). Mae Cynllun Heddlu a Throseddu 2017-2021 y Comisiynydd Heddlu a Throseddu<sup>12</sup> yn amlinellu nodau'r Comisiynydd i fynd i'r afael â sylweddau anghyfreithlon, yn enwedig y bygythiad yn sgil grwpiau troseddu trefnedig a'r rhan y maent yn ei chwarae mewn masnachu sylweddau dosbarth A. Mae'r uchod yn dangos cynnydd mewn plismona rhagweithiol ar draws ardal Dyfed-Powys mewn ymateb uniongyrchol i'r cynllun hwn, a ddangosir gan y cynnydd mewn troseddau masnachu sy'n cael eu cofnodi, yn ogystal â faint o weithrediadau tarfu ar gyffuriau a gyflawnir gan Heddlu Dyfed-Powys.

Yn ogystal â hyn, ac er mwyn helpu i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ledled Cymru, sefydlwyd Byrddau Cynllunio Ardal i geisio sicrhau cysondeb o ran cynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae Byrddau Cynllunio Ardal yn comisiynu ystod o wasanaethau a rhaglenni gwaith i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau ac alcohol. Ar gyfer gwasanaethau oedolion mae dau ddarparwr wedi'u contractio ar draws ardal yr Heddlu:

- Kaleidoscope - sy'n darparu gwasanaeth ym Mhowys
- Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed - sy'n darparu gwasanaeth ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro

<sup>12</sup> Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys - Cynllun Heddlu a Throseddu 2017-2021

Mae'r darparwyr hyn yn rhoi dealltwriaeth i ni o dueddiadau camddefnyddio sylweddau ar draws Dyfed-Powys, gyda'r ddau ddarparwr yn adrodd ar gyfeiriadau a thueddiadau'n ymwneud â chyffuriau ar draws y pedair sir.

### 3.7.1 Canabis


Mae'r defnydd o ganabis yn parhau i fod yn gyffredin ym mhob sir yn Nyfed-Powys, gyda Gwasanaethu Cyffuriau ac Alcohol Dyfed a Kaleidoscope yn dweud bod cysondeb yn y cyfeiriadau at eu gwasanaethau. Canabis yw un o'r cyffuriau y cofnodwyd y defnydd mwyaf ohono, a hynny'n gyson, ac mae tua 10% o'r cyfeiriadau'n ymwneud â defnyddio canabis. Mae'r lefelau cyfeirio hyn yn aros yr un fath pan gaiff y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau generig a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'r system cyfiawnder troseddol eu cymharu.

### 3.7.2 Heroin

Ar sail data'r heddlu, nododd Dyfed-Powys nifer o ddangosyddion sy'n awgrymu cynnydd yn y defnydd o Heroin<sup>13</sup>. Nodir y rhain isod:

- Cynnydd cyfartalog ym mhurdeb Heroin a atafaelwyd ar lefel deliwr. Cynyddodd hyn o 18.2% yn 2014 i 34% yn 2016.
- Cynnydd mewn gweithgarwch grwpiau troseddu trefnedig yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.
- Cynnydd mewn trais sy'n gysylltiedig â chyffuriau.
- Mwy o adroddiadau am sbwriel sy'n gysylltiedig â chyffuriau mewn rhai mannau o fewn ardal yr Heddlu.
- Cynnydd mewn gorddosau sy'n gysylltiedig â heroin a marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau (cynnydd o 88 o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag heroin neu forffin yn 2014 i 166 yn 2017).
- Cynnydd yn y gudd-wybodaeth sy'n ymwneud â defnyddio a chyflenwi heroin o blith cyfanswm yr holl gudd-wybodaeth am gyffuriau - 8% i 21%.


Mae'r graff isod yn amlygu maint y cofnodion cudd-wybodaeth a gyflwynwyd gan swyddogion Heddlu Dyfed-Powys rhwng mis Medi 2017 a mis Awst 2018<sup>14</sup>:



Pan fydd y cofnodion cudd-wybodaeth hyn yn cael eu dadansoddi fesul sir, mae 50% o'r rhain yn ymwneud â Phowys, ac mae'r gweddill y cofnodion Intel yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

### 3.8 Dull Heddlu Dyfed-Powys o Fynd i'r Afael â Defnyddio Cyffuriau Anghyfreithlon

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu o fewn fframwaith strategaeth reoli, a ddefnyddir i flaenoriaethu adnoddau. Defnyddir hwn ar draws y sefydliad ac adroddir yn ei erbyn yn rheolaidd.



Mae Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio cynllun gweithredu 4 elfen fel sail i'r dull gweithredu ar gyfer pob mater yn y Strategaeth Reoli, gyda chyffuriau dosbarth A a sylweddau seicoweithredol newydd yn rhan o hyn.

Crynoir hyn isod:

**Paratoi** - Nod yr adran hon yw sicrhau bod proffiliau cudd-wybodaeth perthnasol yn cael eu cwblhau mewn perthynas â Llinellau Cyffuriau yn ogystal â sylweddau dosbarth A a sylweddau seicoweithredol newydd.

**Dilyn** - Mae'r adran hon yn ymwneud â sicrhau bod adnoddau Heddlu Dyfed-Powys yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon ledled ein siroedd.

**Amddiffyn** - Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y ffordd orau o gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt.

**Atal** - Yn olaf, mae'r adran hon yn canolbwyntio ar yr angen am addysg.

### 3.9 Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau

Mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn cael eu comisiynu ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys drwy'r Byrddau Cynllunio Ardal. Byrddau statudol yw Byrddau Cynllunio Ardal a grëwyd i ddarparu atebolrwydd, proses lywodraethu a chraffu ar gynllunio strategol, perfformiad a rheolaeth ariannol gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ledled ardal Dyfed-Powys. Mae ffiniau'r Byrddau hyn yn cyd-fynd â ffiniau'r Byrddau Iechyd Lleol ac o'r herwydd mae dau Fwrdd Cynllunio Ardal o fewn rhanbarth Dyfed-Powys; Bwrdd Cynllunio Ardal Dyfed (Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin) a Bwrdd Cynllunio Ardal Powys.

O fewn y Byrddau hyn ceir 'Awdurdodau Cyfrifol' ac 'Asiantaethau Cyfetholedig a Chynghorol', fel y rhestrir isod:

Awdurdodau Cyfrifol:

- Heddlu Dyfed-Powys
- Awdurdodau Lleol
- Byrddau Iechyd
- Y Gwasanaeth Prawf
- Y Gwasanaeth Tân

Asiantaethau Cyfetholedig Chynghorol:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc
- Llywodraeth Cymru

Mae gan y Byrddau Cynllunio Ardal bedair prif amcan mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau, sef:

1. Cyfeiriad Strategol, Cynnydd a Chyflawni
2. Llywodraethu, Craffu ac Atebolrwydd
3. Cyllid
4. Perfformiad

Yn ogystal â'r prif gyfrifoldebau, mae gan bob Bwrdd Cynllunio Ardal themâu strategol allweddol sy'n cyfeirio'r gwasanaethau a gomisiynir drwy'r Bwrdd. Mae'r rhain yn cynnwys triniaeth, lleihau niwed ac atal. Rhaid i'r gwasanaethau

sy'n cael eu darparu drwy gyllid Byrddau Cynllunio Ardal ddod o fewn un o'r categorïau hyn.


Mae pob Bwrdd Cynllunio Ardal wedi comisiynu darparwr gwasanaeth ag un pwynt cyswllt ar gyfer gwasanaethau i oedolion (mae gwasanaethau i bobl ifanc yn wasanaethau ar wahân), sy'n darparu'r prif wasanaeth i gymunedau Dyfed a Phowys i'r rhai sy'n dioddef problemau camddefnyddio sylweddau ac alcohol. Ar gyfer Dyfed, dyfarnwyd y contract hwn i Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed ac ar gyfer Powys fe'i dyfarnwyd i Kaleidoscope.

### 3.9.1 Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed

Mae Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed wedi darparu'r prif wasanaeth cymorth camddefnyddio sylweddau ac alcohol i gymunedau Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ers mis Ebrill 2015. Comisiynir y gwasanaeth gan y Gwasanaeth Iechyd, Awdurdodau Lleol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys.

### 3.9.2 Cyfeiriadau at Ddarparwyr Gwasanaethau - Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed

Yn ystod 2017/18 derbyniodd Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed 1,856 o gyfeiriadau a arweiniodd at gynnal 1,257 o asesiadau. Mae ystod eang o ddulliau mynediad ar gyfer Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, fodd bynnag, prif ffynhonnell y cyfeiriadau yw hunangyfeiriadau, a hynny'n gyson. Roedd hyn yn cyfateb i 1,019 o gyfeiriadau yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18.





Mae'r uchod yn dangos y gymhariaeth yn ffigurau cyfeirio'r heddlu a ffynonellau cyfeirio eraill. Mae hyn, ynghyd â'r niferoedd bach o rybuddion amodol yn awgrymu tanddefnydd o'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

### 3.9.3 Kaleidoscope

Mae Kaleidoscope wedi darparu'r gwasanaeth i Bowys ers 2015. Swyddfa'r CHTh sy'n darparu cyllid ar gyfer gwasanaeth hwn ar hyn o bryd.

Cyfanswm y cyfeiriadau i Kaleidoscope yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18 oedd 757, sef 63 o gyfeiriadau bob mis ar gyfartaledd. Fel gyda Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Powys, hunangyfeiriadau oedd y ganran uchaf o gyfeiriadau ym Mhowys, sef 48% ar gyfartaledd dros y flwyddyn, gyda chyfeiriadau gan y gwasanaeth cyfiawnder troseddol ar gyfartaledd yn 33% o gyfanswm y cyfeiriadau at y gwasanaeth. Pan ddadansoddir y cyfeiriadau hyn gan y gwasanaeth cyfiawnder troseddol ymhellach, mae cyfeiriadau'r heddlu (gan gynnwys cyfeiriadau ar ôl arestio) yn cyfrif am 22% o'r cyfeiriadau cyffredinol dros y flwyddyn, ond yn aml dywedir bod ansawdd y cyfeiriadau hyn yn wael, gan wneud ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau yn anodd iawn o'r ffynhonnell gyfeirio hon.

Mae'r canlyniadau y mae defnyddwyr gwasanaethau yn eu cyflawni yn fesur allweddol sy'n cael ei fonitro, gan gynnwys monitro lleihau'r defnydd problematig o sylweddau, ansawdd bywyd pob defnyddiwr gwasanaeth, yn ogystal â'r achosion sy'n cael eu cau fel 'triniaeth wedi'i chwblhau'. Yn ystod 2017/18, ar gyfartaledd, gostyngodd 81.5% o unigolion eu camddefnydd o sylweddau o ddechrau eu triniaeth nes iddynt adael y driniaeth. Roedd nifer yr unigolion a fethodd fynychu eu hapwyntiad hefyd yn parhau'n gadarnhaol dros y cyfnod hwn gyda llai nag 20% o unigolion yn methu â mynychu eu hapwyntiadau, a 96% o unigolion yn derbyn triniaeth o fewn 20 diwrnod i gael eu cyfeirio. Mae'r meysydd hyn ill dau yn uwch na mesurau Llywodraeth Cymru, gan ddangos effeithiolrwydd y gwasanaethau yn Nyfed-Powys.

## 3.10 Strwythurau Sefydliadol

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio nifer o wahanol fforymau i reoli adnoddau wrth fynd i'r afael â chyffuriau anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys nifer o bartneriaid, pob un â'i rôl ei hun i fynd i'r afael â chyffuriau anghyfreithlon ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys. A barnu o drafodaethau gyda swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu, ceir teimlad cyffredinol y gall fod yn anodd plismona'n effeithiol y problemau presennol gyda chyffuriau yn ardal Dyfed-Powys. Tynnodd swyddogion Sir Benfro a Cheredigion sylw at Unedau Pennu Tasgau yn y Gymdogaeth fel un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o fynd i'r afael

â phroblemau cyffuriau yn eu rhanbarthau. Mae'r unedau hyn yn cynnwys rhingyll a thîm bach o gwnstabiliaid, sy'n cael cylch gwaith mwy penodol i ymdrin â'r materion hyn, ac yn aml cânt eu defnyddio i wneud gwaith casglu cudd-wybodaeth ac ymchwil, yn ogystal â gweithredu gwarantau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.

Mewn ymdrech i fynd i'r afael â defnyddio a chyflenwi cyffuriau anghyfreithlon yn Nyfed-Powys, ar hyn o bryd mae nifer o ymgyrchoedd a arweinir gan yr heddlu ar waith ar draws ardal yr heddlu. Mae'r ymgyrchoedd hyn i gyd yn cyfrannu at Gynllun Heddlu a Throseddau 2017-2021 y Comisiynydd Heddlu a Throseddau; sef Blaenoriaeth 3 - Amddiffyn ein Cymunedau rhag bygythiadau difrifol. Mae'r Tîm Troseddau Difrifol a Threfnedig yn cynorthwyo i reoli'r gweithrediadau hyn, gan ddarparu sgiliau ymchwilio penodol i droseddau mwy difrifol a chymhleth, gan gynnwys troseddau trefnedig. Mae'r tîm hwn yn cynnwys 12 o swyddogion yr heddlu ac 1 aelod o staff yr heddlu, dan oruchwyliaeth 2 ddetiectif ringyll a ddetiectif arolygydd, sef cyfanswm o 16 o unigolion.

Adeg ysgrifennu'r adolygiad hwn roedd rhwydweithiau llinellau cyffuriau yn destun ymchwiliad yn ardal Dyfed-Powys, drwy ymgyrchoedd niferus i darfu ar droseddau cyffuriau. Er mwyn pennu effeithiolrwydd yr ymgyrchoedd hyn, cânt eu hadolygu o safbwynt dwy agwedd wahanol; effaith plismona uniongyrchol yr ymgyrchoedd, gan gynnwys nifer yr unigolion a gafodd eu harestio fel rhan o bob ymgyrch, yn ogystal â'r symiau o gyffuriau rheoledig a atafaelwyd. Ystyrir hefyd safbwynt darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, o ran yr effaith a gawsant ar argaeledd sylweddau dosbarth A a'r galw amdanynt. Mae'r tabl isod, a ddarparwyd gan y Tîm Troseddau Difrifol a Threfnedig, yn manylu ar effaith y gweithrediadau hyn yn ystod y cyfnod 2016 i 2018. Mae'n amlygu nifer yr unigolion a gafwyd yn euog, cyfanswm cyfunol eu dedfrydau, yn ogystal â nifer y cyffuriau dosbarth A a atafaelwyd.

Cyfanswm y bobl a gafwyd yn euog	Cyfanswm y blynyddoedd dedfrydu	Cyfanswm gwerth y nwyddau
117	421 mlynedd a 5 mis  (yn aros am ddedfrydau ar gyfer Ymgyrch Regent ac Ymgyrch Cryptic)	£23.6 miliwn  Dosbarth A (Heroin a Chocên)

Wrth asesu gwerth am arian ac elw ar fuddsoddiad mae'n bwysig mesur cost ariannol yr unedau plismona sy'n cynnal ymarferion tarfu ar droseddau difrifol a threfnedig a llinellau cyffuriau yn bennaf ynghyd â chost ymgyrchoedd tarfu ar

droseddau cyffuriau eu hunain. Gellir mesur y costau hyn mewn dwy ffordd; yn gyntaf, costau staffio'r Tîm Troseddau Difrifol a Threfnedig, yn ogystal â'r gwariant er mwyn cyflawni gweithrediadau cyffuriau'r heddlu

Cyfanswm costau staffio y Tîm Troseddau Difrifol a Threfnedig yw £910,608 y flwyddyn. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys costau cyflogau'r unigolion yn y tîm hwn, gan gynnwys goramser, yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn.

Nid yw'n hawdd nodi gwariant ar ymgyrchoedd tarfu ar droseddau cyffuriau. Mae hyn oherwydd bod swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu yn gweithio ar ymgyrchoedd eraill hefyd ac yn aml yn cyflawni dyletswyddau plismona ychwanegol o fewn eu dyletswyddau arferol. Er bod hyn yn cyfyngu ar y gallu i nodi cost lawn ymarferion o'r fath, mae'n bosibl nodi rhywfaint o wariant ychwanegol ar gyfer ymgyrchoedd lle mae cod prosiect ariannol yn cael ei ddefnyddio. Mae hyn yn caniatáu i wariant o'r fath gael ei adnabod yn hawdd.

Isod mae rhestr o'r ymgyrchoedd tarfu ar droseddau cyffuriau y rhoddwyd cod prosiect iddynt, ynghyd â gwariant yn erbyn pob un:

- Ymgyrch Siren - £ 18,232
- Ymgyrch Regent - £ 82,385
- Ymgyrch Rocket - £ 7,885
- Ymgyrch Tweed - £ 6,313
- Ymgyrch Crossfield - £ 4,754

Cyfanswm -£119,569

Mae'r uchod yn dangos y gwaith a wnaed gan Heddlu Dyfed-Powys mewn ymateb i gyffuriau anghyfreithlon yn Nyfed-Powys ac ymddangosiad grwpiau troseddu trefnedig. Mae angen sicrhau nad yw'r rhai yr effeithir arnynt gan gyffuriau yn cael eu gweld fel troseddwyr yn unig, ond eu bod yn cael triniaeth i'w galluogi i fynd i'r afael â'u dibyniaeth ar sylweddau dosbarth A. Yn ystod Ymgyrch Regent, cynhaliwyd adolygiad gan Reolwr Gwasanaeth Kaleidoscope, gan nodi argaeledd cyffuriau dosbarth A a mynediad atynt. Edrychodd yr adolygiad ar sawl maes, gan gynnwys argaeledd cyffuriau dosbarth A, newidiadau yn y dulliau o gymryd y cyffuriau hyn, ac unrhyw gynnydd mewn cyfeiriadau ar ôl arestio sy'n cael eu gwneud i Kaleidoscope yn ystod cyfnod yr ymgyrch.

Dangosodd hyn mai ychydig o effaith a gafwyd ar lefelau troseddu ac nad oedd dim newid yn y dulliau a ddefnyddiwyd gan ddefnyddwyr i gymryd y sylweddau hyn. Cadarnhaodd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau hefyd nad oedd argaeledd sylweddau dosbarth A wedi cael ei effeithio. Ategwyd hyn gan swyddogion yr heddlu a ddywedodd fod 'llinellau' eraill yn gweithredu yn yr ardal ac efallai eu bod wedi llenwi unrhyw fylchau yn y farchnad. Er bod Ymgyrch Regent wedi arwain at atafaelu symiau sylweddol o sylweddau dosbarth A, nid oedd wedi mynd i'r afael â'r materion sylfaenol yn ymwneud â pham mae

unigolion yn defnyddio sylweddau anghyfreithlon. Rhaid cyflawni hyn drwy gydweithio rhwng yr heddlu a darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae angen perthynas waith fwy cyson ac agosach rhwng yr heddlu a darparwyr gwasanaethau, fodd bynnag mae angen rhywfaint o annibyniaeth o safbwynt darparwyr gwasanaethau i sicrhau'r ymgysylltiad mwyaf gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae strategaeth camddefnyddio sylweddau Cymru a'r tri nod strategol yn Strategaeth Bwrdd Iechyd Hywel Dda a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef "Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda" (2019) yn hyrwyddo ffocws ar wella iechyd a llesiant ein poblogaeth, nid dim ond camddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn cael ei roi ar waith drwy'r Bwrdd Cynllunio Ardal sydd wedi cydnabod yn ddiweddar yr angen i ddatblygu dull llesiant ar draws partneriaethau a sefydliadau. Mae dull atal a datblygu gwydnwch ymysg pobl ifanc yn ffactor amddiffynnol ar draws nifer o faterion gan gynnwys defnyddio sylweddau, ymddygiad lle mae rhywun yn cymryd risg, llinellau cyffuriau, y risg o ddiodef cam-fanteisio rhywiol ac iechyd meddwl cadarnhaol. Byddai dull partneriaeth ehangach tuag at atal yn adeiladu ar ffactorau amddiffynnol, gwydnwch a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar wybodaeth am drawma ymysg plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau.

### 3.11 Proses Weithredol

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys brosesau ar waith i gynorthwyo swyddogion yr heddlu i nodi unigolion y maent yn amau bod ganddynt sylweddau anghyfreithlon yn eu meddiant, neu i brofi unigolion sydd wedi'u harestio i ganfod a oedd sylweddau anghyfreithlon yn ffactor wrth gyflawni trosedd. Mae'r rhain yn cynnwys y pŵer i stopio a chwilio unigolion, yn ogystal â'r pŵer i gynnal profion cyffuriau yn y ddalfa. Yn ogystal, mae proses ar waith i gefnogi swyddogion yr heddlu yn ystod y broses arestio i alluogi troseddwyr a allai fod yn cyflawni troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau i gael eu cyhuddo o droseddau o'r fath. Mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad i samplu a phrofi sylweddau a atafaelwyd fel rhan o arestiad, neu'r gofyniad i archwilio dyfeisiau electronig, megis ffonau symudol, er mwyn cael gwybodaeth i gefnogi penderfyniad i gyhuddo rhywun o drosedd.

#### 3.11.1 Y Broses Gyhuddo

Yn ystod y broses adolygu codwyd penderfyniadau cyhuddo yn ymwneud â throseddau cyffuriau gan swyddogion yr heddlu. Dywedodd swyddogion yr heddlu fod y broses o gyhuddo unigolion y canfuwyd bod cyffuriau anghyfreithlon yn eu meddiant neu sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau anghyfreithlon yn cael ei hystyried yn "hirwyntog", yn aml gydag unigolion yn cael eu rhyddhau dan ymchwiliad er mwyn gwneud gwaith pellach. Ystyriwyd bod hyn oherwydd y gofyniad i brofi'r sylweddau a atafaelwyd er mwyn canfod

beth ydynt, yn ogystal â'r angen i archwilio dyfeisiau symudol. Tynnwyd sylw at y broses hon yn ystod trafodaethau gyda swyddogion yr heddlu a darparwyd enghreifftiau a oedd yn achosi rhwystredigaeth iddynt. Teimlai'r swyddogion y byddai'r gallu i brofi sylweddau yn y ddalfa yn lleihau'r angen i ryddhau unigolion ac y gallai fod wedi arwain at benderfyniad cyflymach i'w cyhuddo.

Mae'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol yn darparu canllawiau cenedlaethol a ddefnyddir gan Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Dyfed-Powys i gyfrannu at ganllawiau'r Heddlu i swyddogion yr heddlu, gyda'r nod o liniaru'r risg i staff a swyddogion yr heddlu. Ym mis Mawrth 2017, gosodwyd cyfyngiadau ar swyddogion yr heddlu i brofi sylweddau anghyfreithlon, oherwydd risg uwch o bresenoldeb Fentanyl. Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu hadolygu'n barhaus ac wrth lunio'r adroddiad hwn mae'r cyfyngiadau ar brofi sylweddau anghyfreithlon wedi cael eu dileu. Mae hyn bellach yn caniatáu i swyddogion a staff yr heddlu sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i brofi sylweddau heb fod angen cyflwyno'r rhain i'w dadansoddi ymhellach. Gwneir hyn drwy ddefnyddio proses Profion Adnabod Cyffuriau er Tystiolaethol (EDIT), gan ddefnyddio pecynnau profi cyffuriau a gymeradwywyd gan y Swyddfa Gartref. Cefnogir y broses hon gan ganllawiau'r Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona (NPIA)<sup>15</sup>, ynghyd â chanllawiau Heddlu Dyfed-Powys ar gyflwyno cyffuriau<sup>16</sup>. Dylid nodi, fodd bynnag, ar gyfer achosion o amheuaeth o feddiant gyda'r bwriad i gyflenwi, y byddai dal angen gofyniad i ddadansoddi sylweddau a atafaelwyd ymhellach. Mae hyn oherwydd bod llysoedd angen gwybodaeth am bwysau a phurdeb er mwyn gwneud penderfyniadau dedfrydu cywir.

Yn ogystal â'r uchod, codwyd yr archwiliad fforensig o ddyfeisiau symudol yn ystod trafodaethau gyda swyddogion yr heddlu. Nodwyd fod Sir Benfro yn treialu 'Canolfan Ddigidol', sy'n cynnwys Ymchwilydd Cyfryngau Digidol penodedig wedi'i leoli yn un o orsafoedd yr heddlu yn Sir Benfro. Gwelwyd bod yr arfer hwn yn gadarnhaol, gan roi mynediad cyflymach i swyddogion yr heddlu at ddadansoddiad o seiberdroseddau digidol, fel y gellid cynnal archwiliadau o ffonau symudol yn haws. Nid oedd yn glir a fyddai'r arfer hwn yn cael ei ailadrodd ar draws ardal yr Heddlu.

### 3.11.2 Stopio a Chwilio

Dim ond lle mae ganddynt sail resymol dros wneud hynny y mae gan yr heddlu y pŵer i stopio a chwilio pobl.

Mae prosesau ar waith i swyddogion yr heddlu eu dilyn i sicrhau bod stopio a chwilio yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac mewn modd anwahaniaethol. Bob tro y cynhelir proses stopio a chwilio, rhaid gwneud cofnod ohoni, gan gynnwys

<sup>15</sup> Canllawiau ar gyfer Profion Adnabod Cyffuriau Tystiolaethol mewn Gorsafoedd Heddlu


<sup>16</sup> Canllawiau'r Uned Cefnogaeth Wyddonol ar gyfer Cyflwyno Cyffuriau – Diwygiwyd Chwefror 2019.

amser, dyddiad a lleoliad pob achos. Dylai swyddogion hefyd gofnodi hyn gan ddefnyddio eu Camerâu Corff. Mae hyn yn sicrhau bod cofnod o ble a phryd mae'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio.

Yn ystod 2017/18 defnyddiodd Heddlu Dyfed-Powys y pŵer i stopio o chwilio 2,235 o weithiau o'i gymharu â 960 yng Ngwent, 1,593 yng Ngogledd Cymru a 6,788 yn Ne Cymru. Yn yr un modd, roedd stopio a chwilio yn gysylltiedig â chyffuriau yn dilyn patrwm tebyg.

Ers 2015, mae nifer y chwiliadau wedi gostwng yn raddol o flwyddyn i flwyddyn hyd at 2018 lle y gwelwyd cynnydd ym mhob man, ac eithrio Ceredigion. Yn ystod grŵp ffocws yng Ngheredigion, awgrymwyd bod diffyg hyder swyddogion yr heddlu sydd ar gam cynnar o'u gwasanaeth wedi arwain at lai o chwiliadau'n cael eu cynnal, gyda diffyg 'crefft stryd' yn cael ei nodi fel ffactor posibl yn y gostyngiad. Rhoddwyd sylw i'r mater hwn drwy oruchwyliaeth a chefnogaeth ychwanegol.

Mae'r graff isod yn dangos cyfanswm y chwiliadau a gynhaliwyd o 2015 i 2018:



Yn ystod y grwpiau ffocws yng Ngheredigion, codwyd y ffaith bod cynlluniau ar droed i ddechrau Cynllun Mentor Stopio a Chwilio. Bwriad y cynllun hwn yw gwella hyder swyddogion yr heddlu o ran nodi cyfleoedd i ddefnyddio pwerau stopio a chwilio.

Cynhaliwyd adolygiad hefyd o'r canlyniadau yn dilyn stopio a chwilio yn ystod 2017 a 2018. Dangosodd hyn bod y pŵer i stopio a chwilio wedi cael ei ddefnyddio 3,572 o weithiau dros y cyfnod dwy flynedd, dan bŵer Adran 23 o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, gyda 1,315 ohonynt yn arwain at ganfod sylwedd rheoledig (cyfradd llwyddiant 36.8%). Anaml y defnyddiwyd rhybuddion

amodol a rhybuddion syml yn 2017, ond o gymharu defnyddiwyd y dull gwaredu 'dim camau pellach' mewn 13.5% o chwiliadau cadarnhaol ar gyfartaledd ar draws yr Heddlu, gyda'r defnydd uchaf yng Ngheredigion ar gyfradd o 23.3%. Gwelwyd cynnydd mawr yn y dull gwaredu hwn yn 2018, gyda chyfartaledd o 30% ar draws ardal yr Heddlu. Mae hyn yn ymddangos yn anghyson ac mae angen ymchwilio ymhellach iddo, o gofio bod hyn yn ymwneud ag achosion o stopio a chwilio lle y canfuwyd cyffuriau anghyfreithlon ond na chymerwyd unrhyw gamau. Mae hyn, ynghyd â'r diffyg defnydd o rybuddion amodol yn awgrymu bod cyfleoedd wedi eu colli i gyfeirio unigolion at driniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

Gellir gweld dadansoddiad o'r canlyniadau ar gyfer chwiliadau cadarnhaol am gyffuriau ar gyfer 2017 a 2018 yn Atodiad B.

### 3.11.3 Profi Wrth Arestio

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu cynllun profi am gyffuriau wrth arestio mewn sawl un o ystafelloedd y ddalfa ar draws ardal yr Heddlu. Mae hyn yn darparu pwerau i brofi carcharorion at y diben o adnabod sylweddau dosbarth A. Gwneir hyn yn unol â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984<sup>17</sup> (PACE), Adran 63B fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyffuriau 2005. Mae'r ddeddf hon yn caniatáu i grwpiau o garcharorion gael eu profi am sylweddau dosbarth A ar sail eu trosedd. Gelwir y troseddau hyn yn 'droseddau sbardun' ac fe'u rhestrir yn Atodlen 6 o <sup>18</sup> Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000.


O fewn Dyfed-Powys mae'r broses profi am gyffuriau wrth arestio yn adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol a osodwyd gan y Swyddfa Gartref yn ei dogfen 'Operational Process Guidance for Implementation of Testing on Arrest, Required Assessment and Restriction on Bail'<sup>19</sup>. Yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref, cyfeirir at sicrhau bod swyddogion y ddalfa a staff eraill y ddalfa yn ymwybodol o'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau. Er bod y cyfeiriad hwn yn hen bellach, mae angen parhau i sicrhau ymwybyddiaeth o strategaethau a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau cyfredol, a pha effaith y gall profi unigolion am gyffuriau ei chael ar leihau patrymau troseddu a throseddau yn gyffredinol.

Yn ystod y blynyddoedd calendr 2017 a 2018 cafwyd cynnydd cyffredinol yn nifer y troseddau sbardun sy'n cael eu prosesu ym mhob ystafell dalfa, ac eithrio Aberystwyth.

<sup>17</sup> *Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984*

<sup>18</sup> *Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 - Atodlen 6*

<sup>19</sup> *Operational Process Guidance for Implementation of Testing on Arrest, Required Assessment and Restriction on Bail*



Pan gaiff troseddau sbardun sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn unig eu cymharu, mae'r gostyngiad rhwng 2017 a 2018 yn Aberystwyth yn fwy nodedig.

Ar hyn o bryd, nid yw'r broses ar gyfer cofnodi profion yn effeithiol, gyda chofnodion â llaw yn cael eu cadw ym mhob ystafell dalfa. Yn ogystal, nid yw'r broses o gyfeirio unigolion at driniaeth yn effeithlon, heb unrhyw fodd o anfon cyfeiriadau yn electronig, gan arwain at ddefnyddio system bapur. Mae hyn yn peri problemau o ran y gallu i werthuso effeithiolrwydd y broses hon ac a yw'n cael ei defnyddio'n llawn.

Argymhellodd Proffil Problemau Heroin 2017<sup>20</sup> nad yw'r broses profi wrth arestio'n cael ei defnyddio'n ddigonol a bod angen i'r broses hon gael ei harchwilio i sicrhau y gellid ei monitro a'i gwerthuso'n rheolaidd. Cefnogir hyn hefyd gan argymhellion o ddigwyddiad gwella parhaus a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2017. Amlinellodd y cynllun gweithredu a ddeilliodd o'r digwyddiad hwn nifer o'r sylwadau a wneir yn yr adroddiad hwn.

### 3.11.4 Canlyniadau Troseddau Cyffuriau

Cynhaliwyd adolygiad o'r canlyniadau ar gyfer troseddau cyffuriau yn ystod y blynyddoedd calendr 2017 a 2018 fel rhan o'r astudiaeth hon. Roedd 30% o'r canlyniadau yn 2017 yn rhybuddion am ganabis a gostyngodd hyn fymryn i 25% yn 2018. Y canlyniadau mwyaf cyffredin wedyn oedd gwŷs (13%) a rhybudd i

<sup>20</sup> Proffil o'r Broblem Heroin - Heddlu Dyfed-Powys - Mehefin 2017



oedolyn (13% a 12% yn y drefn honno ar gyfer 2018). Anaml y defnyddiwyd rhybuddion amodol i oedolion a datrysiadau cymunedol i oedolion yn ystod y ddwy flynedd. Dim ond 1% o ganlyniadau cyffredinol troseddau cyffuriau yn 2017 a 2018 oedd rhybuddion amodol i oedolion, gyda datrysiadau cymunedol i oedolion yn cynyddu o 1% yn 2017 i 3% yn 2018. Er cymhariaeth, roedd rhybuddion safonol i oedolion yn cyfrif am 14% o gyfanswm y canlyniadau yn 2017 a 12% yn 2018.

Mae canlyniadau amodol a datrysiadau cymunedol i oedolion yn gweithredu fel llwybrau pwysig i ddargyfeirio unigolion at driniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau, ac un o'r amodau arestio yw dechrau defnyddio gwasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Mae'r diffyg canlyniadau hyn hefyd yn awgrymu na wneir digon o ddefnydd o wasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Yn debyg i brofi wrth arestio, roedd y Proffil Problemau Heroin (2017) hefyd yn awgrymu nad yw rhybuddion amodol yn cael eu defnyddio'n ddigonol i gyfeirio pobl at driniaeth. Mae hyn yn parhau i fod yn wir. Byddai rhoi'r gorau ddefnyddio rhybuddion syml a symud i ddull gwarediadau dwy haen y tu allan i'r llys yn cynyddu'r cyfleoedd i swyddogion yr heddlu gyfeirio unigolion at wasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

Amlygir enghraifft o effeithiolrwydd rhybuddion amodol gan Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, pan gafodd unigolyn ei arestio am drosedd yn gysylltiedig â chyffuriau a'i gyfeirio am driniaeth fel rhan o'i rybudd amodol. Nid oedd yr unigolyn wedi defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau o'r blaen ac roedd yn defnyddio amffetamin yn rheolaidd, yn ogystal â chyffuriau eraill. Drwy ymgysylltu â Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed roedd yn gallu cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau, ac un o'r rheini oedd sgrinio am feirysau a gludir yn y gwaed lle y cafodd ddiagnosis o hepatitis C ac o ganlyniad, roedd modd iddo gael triniaeth ar ei gyfer.

### 3.12 Cudd-wybodaeth a Chyfathrebu

Yn ystod yr adolygiad hwn, thema a godwyd droeon gan swyddogion yr heddlu oedd canfyddiad y cyhoedd o gudd-wybodaeth y gellir gweithredu arni. Mae swyddogion yr heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn dweud eu bod yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd gan aelodau o'r cyhoedd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â defnyddwyr cyffuriau hysbys neu ardaloedd lle ceir llawer o weithgaredd yn ymwneud â chyffuriau. Fodd bynnag, ymddengys mai cynnwys y wybodaeth a'r manylion yw'r broblem. Yn aml, darperir gwybodaeth i swyddogion yr heddlu sy'n rhy annelwig i gael gwarant ar gyfer gweithgarwch cyffuriau ac wedyn dim ond cofnodi cudd-wybodaeth sy'n manylu ar yr hyn a ddywedwyd wrthynt y gallant ei wneud.

Mae hyn wedi arwain at aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu â swyddogion yr heddlu sawl gwaith gan eu bod yn credu nad yw'r heddlu'n gweithredu ar yr wybodaeth a ddarparwyd ganddynt. Gallai hyn effeithio ar lefel y gudd-wybodaeth sy'n cael ei darparu gan aelodau'r cyhoedd a hyder y cyhoedd yn yr heddlu. Ategir hyn gan ymgynghoriad a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad hwn, lle y nododd unigolion eu bod wedi darparu gwybodaeth i'r heddlu yn y gorffennol, fodd bynnag hyd y gwyddant, ni wnaed unrhyw beth gyda'r wybodaeth honno. Yn ogystal, roedd rhai preswylwyr yn teimlo na fyddent yn darparu gwybodaeth i'r heddlu am ddefnyddwyr cyffuriau yn eu cymunedau, oherwydd eu bod yn ofni y byddai rhywun yn dial arnynt.

Mae angen i Heddlu Dyfed-Powys weithio gydag asiantaethau partner i gynnal ymgyrch casglu cudd-wybodaeth am gyffuriau yn lleol. Byddai hyn yn caniatáu casglu cudd-wybodaeth benodol mewn ardaloedd lle mae cyffuriau'n broblem, gan wneud y gorau o'r effaith y gall cudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau ei chael. Byddai hyn yn cynnig ffordd i'r cyhoedd ddarparu cudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau mewn ardaloedd penodol, gan ganiatáu i'r heddlu feithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o weithgarwch sy'n gysylltiedig â chyffuriau mewn ardaloedd penodol, a gallu gweithredu arno.

### 3.13 Cynllun Braenaru Dargyfeiriol Swyddfa'r CHTh

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn ariannu cynllun peilot ar ffurf Cynllun Braenaru Dargyfeiriol a ddechreuodd ym mis Ebrill 2018. Roedd y cynnig ar gyfer y cynllun yn fenter sy'n newid diwylliant ac yn ceisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddau a materion sy'n gysylltiedig ag iechyd a chymuned. Mae'r cynllun yn rhaglen amlasiantaeth, sy'n ceisio mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol yn llawer cynharach yn ystod taith droseddau unigolyn. Mae unigolion y nodir eu bod yn wynebu'r perygl mwyaf o droseddau yn cael eu heithrio o'r rhaglen ac ymdrinnir â hwy drwy warediadau cyfiawnder troseddol traddodiadol.

O fewn 24-72 awr o gael eu rhyddhau o'r ddalfa (dan ymchwiliad), bydd y cyfranogwyr yn cwrdd ag asesydd arbenigol a fydd yn cwblhau asesiad risg/anghenion manwl i benderfynu beth sydd wedi cyfrannu at y troseddau. Ar sail yr asesiad risg/anghenion, bydd yr asesydd yn cytuno â'r unigolyn ar gontract ymgysylltu.

Bydd y contract yn rhestru hyd at 5 amod:

- ✓ Peidio ag aildroseddau am gyfnod 4 mis y contract (amod troseddol - gorfodol)
- ✓ Cymryd rhan mewn dull Cyfiawnder Adferol os gofynnir i'r unigolyn wneud hynny (amod y dioddefwr)
- ✓ Ymyrraeth i fynd i'r afael â llwybr angen critigol 1 (Amod yn ymwneud â llwybr)

- ✓ Ymyrraeth i fynd i'r afael â llwybr angen critigol 2 (Amod yn ymwneud â llwybr)
- ✓ Ymyrraeth i fynd i'r afael â llwybr angen critigol 3 NEU wneud 18-36 awr o waith gwirfoddol.


Bydd yr ymyriadau yn parhau cyhyd ag y bo angen; dim ond porth i wasanaethau fydd contract 4 mis y cynllun dargyfeiriol a bydd yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn a'r gwasanaethau a gynigir.

Rhwng mis Medi 2018 a mis Tachwedd 2018 cynhaliwyd adolygiad o'r cynllun i asesu effeithiolrwydd y cyfnod peilot ac i geisio darparu tystiolaeth ar gyfer penderfyniad ar ddyfodol y cynllun. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y cyfnod o fis Ebrill 2018 i fis Tachwedd 2018.


Yn gyffredinol, gwelwyd nifer fach o gyfeiriadau i'r cynllun i ddechrau. Wrth gymharu'r rhywiau, roedd hyn yn gyson rhwng troseddwy'r gwrywaidd a benywaidd, gyda nifer y cyfeiriadau yn 5 y mis ar gyfer y ddau ryw ar gyfartaledd. Roedd diffyg defnydd o'r cynllun yn cael ei briodoli i ddechrau i ddiffyg ymwybyddiaeth o'r cynllun ymhlith swyddogion, yn ogystal â dryswch ynghylch y meini prawf cymhwysedd. O ystyried yr uchod, gwnaed ymdrech ar y cyd i hyrwyddo'r cynllun yn lleol yn Sir Benfro a arweiniodd at ddyblu nifer y cyfeiriadau a dderbyniwyd yn ystod misoedd Medi, Hydref a Thachwedd. Arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol yn nifer y troseddwy'r gwrywaidd a oedd yn cael eu cyfeirio at y cynllun.

Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adran hon, bydd pob unigolyn ar lwyth achosion yn cael ei asesu i nodi ei anghenion a bydd yn cael ei gefnogi drwy becyn cymorth 4 mis. Mae pob person yn cael asesiad cychwynnol, ac yna un ar ddiwedd ei raglen. Mae hyn yn nodi unrhyw newidiadau yn eu hymddygiad troseddol a risgiau a nodwyd. Erbyn mis Tachwedd roedd 20 o unigolion wedi cwblhau eu rhaglen 4 mis yn llwyddiannus a dangosir eu hasesiad o anghenion isod:

Dynion ar y Dechrau




Dynion ar y Diwedd




Cafwyd gostyngiad o 56% yn anghenion y troseddwr gwrywaidd a gwblhaodd y cynllun, gyda 12 o blith yr 19 o asesiadau dynion ar ddiwedd y cynllun yn nodi llai o anghenion na'r asesiad a gynhaliwyd ar ddechrau'r cynllun. Dangosir y data er cymhariaeth ar gyfer troseddwr benywaidd isod:

Menywod ar y Dechrau



## Menywod ar y Diwedd



Mae'r data ar gyfer benywod yn dangos gostyngiad o 64%, gydag anghenion 75% o fenywod yn lleihau rhwng yr asesiad cychwynnol a'r asesiad terfynol.

Aseswyd lefelau aildroseddu unigolion hefyd, gyda 15% yn aildroseddu ar ôl bod ar y cynllun. Fodd bynnag, dylid nodi, oherwydd y cyfnod byr ar ôl y cynllun, nad yw'n glir pa mor gadarn yw hyn, fodd bynnag mae'n dangos gostyngiad cyffredinol mewn anghenion troseddegol unigolion sy'n ymwneud â'r rhaglen Braenaru.

Wrth adolygu'r cynllun gan ganolbwyntio'n benodol ar gamddefnyddio sylweddau, gwelwyd gostyngiad o 76% mewn anghenion sy'n gysylltiedig â sylweddau. O ystyried cymhlethdod camddefnyddio sylweddau, ni fydd anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu, ond mae'r cynllun yn bwynt mynediad hanfodol i gymorth a thriniaeth ar gam cynnar.

Fel y nodwyd, roedd y nifer a gyfeiriwyd at y cynllun hwn yn is na'r disgwyl, er bod anghenion y rhai a gymerodd rhan wedi cael eu diwallu ac wedi lleihau. Er mwyn gwneud y gorau o'r cynllun, rhaid i Heddlu Dyfed-Powys ddarparu model gweithredol cadarn i gefnogi cyfeirio effeithiol troseddwr lefel isel yn effeithiol.

## 4.0 Canlyniadau

### Gweithio mewn partneriaeth

Mae'r bwloch canfyddedig mewn gwaith partneriaeth digonol rhwng yr Heddlu a darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn golygu bod diffyg dull gweithredu cyson ar y cyd o ran sut y caiff y rhai sydd wedi'u heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau eu trin. Er ei bod yn amlwg bod llawer o ymgysylltu cadarnhaol yn digwydd gyda phartneriaid o ran mynd i'r afael â phroblemau cyffuriau ledled Dyfed-Powys, mae angen mwy o waith gyda gwasanaethau camddefnyddio sylweddau penodol. Oherwydd diffyg protocol 'cyflenwi a thriniaeth cyffuriau' a ddefnyddiwyd yn gyson rhwng Heddlu Dyfed-Powys a

darparwyr triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau, mae hyn yn llesteirio'r gallu i ddarparu dull cyson a chynaliadwy ar y cyd. Gall goblygiadau hyn arwain at ddiffyg:

- dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael yn gyson â materion sy'n gysylltiedig â chyffuriau;
- yr adnoddau sydd ar gael wrth gynllunio ymgyrchoedd sy'n tarfu ar droseddau cyffuriau; a
- cymorth a chynghor addas ar y dulliau mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â chyffuriau.

### **Stopio a Chwilio**

Mae'r gostyngiad yn y defnydd o'r dull stopio a chwilio yng Ngheredigion yn gadael bwch posibl o ran adnabod unigolion a allai fod â sylweddau anghyfreithlon yn eu meddiant yn ogystal â'u dargyfeirio i driniaeth. Gallai hyn, ynghyd â chanfyddiad o beidio â gweithredu ar gudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau, effeithio ar y gallu i greu darlun cynhwysfawr o gudd-wybodaeth am gyffuriau yn yr ardal hon.

Mae'r diffyg defnydd o rybuddion amodol a datrysiadau cymunedol i oedolion fel dulliau gwaredu a chynnydd mewn canlyniadau 'dim camau pellach' yn lleihau'r cyfleoedd i gyfeirio unigolion at driniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Gall goblygiadau hyn arwain at:

- y posibilrwydd o ddarlun llai cynhwysfawr o gudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau;
- cynnydd posibl mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyffuriau oherwydd gostyngiad yn y defnydd o stopio a chwilio rhagweithiol; a
- colli cyfleoedd i gyfeirio unigolion at driniaeth ar gyfer asesu ac adnabod anghenion troseddegol.

### **Profi wrth Arestio**

Nid yw'r systemau TG cyfredol sy'n cefnogi'r broses profi wrth arestio yn ddigonol ac maent yn arwain at ddiffyg goruchwyliaeth briodol o'r broses hon. Mae'r broses bapur bresennol yn gadael bylchau o ran profion gyda photensial i droseddwy'r beidio â chael profion addas os cânt eu harestio am drosedd sbardun. Yn ogystal, mae natur y digwyddiadau profi hyn, a'r wybodaeth ddilynol a drosglwyddir i bartneriaid yn hen ffasiwn ac mae angen ei gwella. Mae ansawdd y cyfeiriadau arestio yn aml yn gofyn am fwy o fanylion a gall arwain at drosglwyddo gwybodaeth o ansawdd wael i ddarparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a diffyg goruchwyliaeth glir o'r broses gyfan. Gall goblygiadau hyn arwain at:

- beidio â chynnig triniaeth i droseddwy'r addas;

- gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn treulio amser maith yn ceisio cysylltu â defnyddwyr gwasanaethau oherwydd manylion coll ar ffurflenni cyfeirio ar ôl arestio;
- potensial ar gyfer troseddwyr mynych, gan arwain at alw ychwanegol am swyddogion yr heddlu; ac
- anhawster wrth sicrhau ansawdd y broses, gan gynnwys sicrhau bod data yn cael eu trosglwyddo'n effeithiol ac yn ddiogel i ddarparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

### **Cudd-wybodaeth**

Gall y diffyg dealltwriaeth o sut mae'r heddlu'n defnyddio cudd-wybodaeth a beth yw 'cudd-wybodaeth y gellir gweithredu arni' effeithio ar hyder y cyhoedd yn yr heddlu. Mae'r ddealltwriaeth bresennol o'r maes hwn yn arwain at roi cudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau i swyddogion yr heddlu, a'r cyhoedd yn credu nad yw'r heddlu'n gweithredu ar hyn. Gall goblygiadau hyn arwain at:

- ddiffyg hyder gan y cyhoedd yn yr heddlu o ran eu gallu i weithredu ar gudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau;
- gostyngiad yn y gudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau a ddarperir i swyddogion yr heddlu gan aelodau'r cyhoedd; ac o ganlyniad.
- llai o ddealltwriaeth o'r darlun cudd-wybodaeth lleol yn ymwneud â chyffuriau.

## **5.2 Camau gweithredu**

Ar ôl ystyried y wybodaeth a gafwyd fel rhan o'r adolygiad hwn, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn gofyn i'r Prif Gwnstabl ystyried yr argymhellion canlynol.

1. Ymgysylltu â phartneriaid ar gam cynllunio cynnar wrth gynnal ymgyrchoedd tarfu ar droseddau cyffuriau er mwyn sicrhau cefnogaeth pob partner, gan gynnwys asiantaethau partner fel CrimeStoppers i gynnal ymgyrchoedd casglu cudd-wybodaeth mewn ardaloedd lleol lle mae cyffuriau'n broblem.
2. Datblygu protocol cyson ar 'gyflenwi a thriniaeth cyffuriau' rhwng Heddlu Dyfed-Powys a darparwyr gwasanaethau arbenigol ar gamddefnyddio sylweddau.

3. Darparu diweddariad ar y cynllun gweithredu Profi wrth Arestio a grëwyd fel rhan o Ddigwyddiad Gwella Parhaus 2017, i gynnwys:
  - i. Sicrhau bod holl swyddogion yr heddlu yn ymwybodol o bwysigrwydd y broses Profi wrth Arestio a'r rhan y mae'n ei chwarae o ran cael mynediad i driniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.
  - ii. Rhoi proses electronig ar waith ar gyfer cofnodi profion wrth arestio, gan ganiatáu i'r wybodaeth hon gael ei hechdynnu'n hawdd a'i chymharu yn erbyn troseddau sbardun ym mhob rhanbarth.
  - iii. creu system fflagio electronig i hysbysu staff y ddalfa pan gaiff unigolyn ei arestio am drosedd sbardun; a
  - iv. Rhoi dull ar waith i drosglwyddo cyfeiriadau yn electronig i ddarparwyr camddefnyddio sylweddau yn dilyn prawf cadarnhaol.
4. Gweithredu'r cynllun Braenaru ar draws ardal Dyfed-Powys, gan ddarparu strwythur gweithredol cadarn sy'n cefnogi cyfeirio pobl at y cynllun a chyflwyno model gwarediadau dwy haen y tu allan i'r llys.
5. Adolygu effeithiolrwydd Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau o ran eu heffaith bosibl o fewn ardal Dyfed-Powys mewn perthynas â lleihau niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau.
6. Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl i ymgysylltu â'r Bwrdd Cynllunio Ardal i gefnogi'r agenda atal ehangach, gan gyflawni dull gweithredu traws-sefydliadol.
7. Sicrhau bod yr arferion gorau a amlygir yn y gwaith Digwyddiadau Dysgu Allweddol o ran Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau yn cael ei ymgorffori yng ngwaith yr Heddlu.
8. Adolygu'r canlyniadau yn dilyn defnyddio stopio a chwilio, i sicrhau bod y rhain yn cael eu cymhwyso'n briodol ac yn gyson a'u bod yn cyd-fynd â pholisi'r Heddlu.
9. Cynnal gwerthusiad o'r defnydd o'r cynllun peilot Ymchwilydd y Cyfryngau Digidol yn Sir Benfro i nodi manteision posibl cyflwyno hyn ledled ardal yr Heddlu.



## 6.0 Adolygiad

### 6.1 Nodau

Nod y gwaith hwn oedd nodi:

1. Ymateb presennol yr Heddlu i fynd i'r afael â'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon;
2. Effeithiolrwydd dull yr Heddlu o fynd i'r afael â'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon;
3. Cysondeb o ran gweithredu polisi cyffuriau'r Heddlu;
4. Effaith dull yr Heddlu o fynd i'r afael â'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon ar gymunedau lleol; a
5. Gwasanaethau triniaeth cyffuriau lleol a'u heffeithiolrwydd.

Drwy:

- a. Nodi strategaeth bresennol yr Heddlu o ran mynd i'r afael â defnyddio cyffuriau dosbarth A ar draws Dyfed-Powys;
- b. Nodi'r nifer sy'n defnyddio prosesau i adnabod a thrin y rhai y mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio arnynt;
- c. Nodi faint o adnoddau sy'n cael eu defnyddio mewn ymateb uniongyrchol i ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon;
- d. Amlygu meysydd arfer da ac unrhyw feysydd y gellid gwella arnynt;
- e. Holi barn y cyhoedd yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau ar gyffuriau anghyfreithlon a pha mor effeithiol y mae'r Heddlu'n mynd i'r afael â hwy.

### 6.2 Casgliadau

Yr argraff a gafwyd o'r adolygiad hwn yw bod Heddlu Dyfed-Powys yn deall y problemau sy'n wynebu cymunedau Dyfed a Phowys o ran effaith cyffuriau anghyfreithlon ac effaith Grwpiau Troseddu Trefnedig. Dangosir hyn drwy gynnwys sylweddau dosbarth A a Grwpiau Troseddu Trefnedig yn strategaeth reoli bresennol yr Heddlu, yn ogystal â'r gwaith helaeth a wnaed o ran ymgyrchoedd i darfu ar weithgaredd cyffuriau. Mae nifer yr unigolion a arestiwyd ac a gyhuddwyd, yn ogystal â'r symiau o gyffuriau anghyfreithlon a atafaelwyd yn ystod yr ymgyrchoedd, yn dystiolaeth o hyn. Er bod hyn yn amlwg yn gadarnhaol, nid yw wedi arwain at leihau'r sylweddau dosbarth A sydd ar gael yn ein cymunedau, ac nid yw ychwaith wedi effeithio ar y galw am sylweddau o'r fath.

Mae gwasanaethau cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn arwain at ganlyniadau o ran lleihau ymddygiad troseddol ac anghenion sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau/alcohol, ond ni wneir digon o ddefnydd ohonynt. Gall tanddefnyddio'r broses Profi wrth Arestio yn ogystal â chyfeiriadau at driniaeth camddefnyddio sylweddau drwy rybudd amodol olygu nad yw troseddwr mynych yn derbyn y driniaeth sydd ei hangen arnynt i asesu eu hanghenion yn llawn a gallant gynyddu'r galw ar swyddogion rheng flaen. Mae angen mwy o ymwybyddiaeth ymhlith swyddogion yr heddlu o'r gwasanaethau a'r prosesau sydd ar gael iddynt, o ran cefnogi'r rhai ag anghenion sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Yn ogystal ag ymwybyddiaeth, mae angen sefydlu strwythur cymorth cadarn i ganiatáu mwy o gyfle i swyddogion yr heddlu gyfeirio unigolion at y cynllun Braenaru mewn ffordd fwy di-dor ac effeithlon. Cydnabyddir bod y broses hon yn cael ei thanddefnyddio, ond mae angen gwaith pellach i sicrhau bod systemau TG yr Heddlu yn effeithiol wrth gefnogi swyddogion yr heddlu yn eu rôl.

Yn olaf, mae angen adolygu dulliau eraill sy'n gysylltiedig â chyffuriau o fewn y Deyrnas Unedig a'r tu allan iddi. Mae'n amlwg bod y cynnydd mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn cael effaith fawr iawn ar y cyhoedd yn lleol yn ogystal ag achosi niwed ariannol a chymdeithasol yng Nghymru. Mae'r digwyddiadau trasig hyn hefyd yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus sydd eisoes dan bwysau. Rhaid adolygu effeithiolrwydd Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau o ran lleihau niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau a'u heffaith ar ymgysylltu â defnyddwyr cyffuriau sy'n anodd eu cyrraedd.

Yng ngoleuni'r uchod, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi ymrwymo i fonitro cynnydd y Prif Gwnstabl yn erbyn yr argymhellion a nodir yn yr adolygiad hwn, drwy adolygiadau cynnydd rheolaidd drwy'r Bwrdd Plismona.

## Atodiad A - Gwybodaeth am Ddosbarthiadau Cyffuriau a Dedfrydu

Dosbarth	Cyffuriau	Meddiant	Cyflenwi a chynhyrchu
A	Crac Cocên, Cocên, Ecstasi (MDMA), Heroin, LSD, madarch hud, methadon, methamffetamin (crisialau meth)	Hyd at 7 mlynedd yn y carchar, dirwy ddiderfyn neu'r ddau	Hyd at fywyd yn y carchar, dirwy ddiderfyn neu'r ddau
B	Amffetaminau, barbitwradau, canabis, codein, cetamin, methylffenidat (Ritalin), canabinoïdau synthetig, cathinonau synthetig (e.e. meffedron, methocsetamin)	Hyd at 5 mlynedd yn y carchar, dirwy ddiderfyn neu'r ddau	Hyd at 14 mlynedd yn y carchar, dirwy ddiderfyn neu'r ddau
C	Steroidau anabolig, bensodiasepinau (diazepam), gama hydrocsibwtrad(GHB), gama-bwtyrolacton (GBL), piperasinau (BZP), khat	Hyd at 2 flynedd yn y carchar, dirwy ddiderfyn neu'r ddau (ac eithrio steroidau anabolig - nid yw'n drosedd meddu arnynt at ddefnydd personol)	Hyd at 14 mlynedd yn y carchar, dirwy ddiderfyn neu'r ddau
Cyffuriau mewn dosbarth dros dro*	Rhai sylweddau methylffenidat (ethylffenidat, 3,4-dicloromethylffenidat (3,4-DCMP), methylnaffthidat (HDMP-28), isopropylffenidat (IPP neu IPPD), 4-methylmethylffenidat, ethylnaffthidat, propylffenidat) a'u deilliadau syml	Dim, ond gall yr heddlu atafaelu yr hyn yr amheuir ei fod yn gyffur mewn dosbarth dros dro	Hyd at 14 mlynedd yn y carchar, dirwy ddiderfyn neu'r ddau

*\* Gall y Llywodraeth wahardd cyffuriau newydd am 1 flwyddyn o dan 'orchymyn gwahardd dros dro' tra byddant yn penderfynu sut y dylid dosbarthu'r cyffuriau*

## Atodiad B - Canlyniadau yn dilyn Stopio a Chwilio sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau

Year	Canlyniad y Chwiliad	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Y Pencadlys	Sir Benfro	Powys	Cyfanswm Terfynol	Cyfartaledd
2017	Gwaredu heb weithredu pellach	8.4	23.3	9.7	13.2	12.8	12.2	13.5
	Arestio	14.0	16.4	13.4	10.3	16.3	14.2	14.1
	Canfuwyd eitem - nid oes canlyniad manwl ar gael	30.8	28.8	32.3	35.3	41.1	34.0	33.7
	Rhybudd (syml neu amodol)	6.5	4.1	6.5	0.0	6.4	5.4	4.7
	Datrysiad yn y gymuned	4.7	0.0	0.0	7.4	0.7	1.8	2.5
	Rhybudd Khat neu Ganabis	24.3	13.7	25.8	26.5	17.7	22.3	21.6
	Hysbysiad Cosb am Anrhefn	1.9	2.7	8.8	0.0	2.8	4.5	3.2
	Gwŷs / cyhuddo drwy'r post	9.3	11.0	3.2	5.9	2.1	5.3	6.3
	Arestio'r unigolyn dan amheuaeth	0.0	0.0	0.5	1.5	0.0	0.3	0.4
2018	Gwaredu heb weithredu pellach	36.1	40.4	18.5	41.9	19.1	27.2	31.2
	Arestio	23.5	24.6	28.6	17.1	36.0	27.4	25.9
	Rhybudd (syml neu amodol)	5.0	3.5	3.4	4.3	5.1	4.2	4.2
	Datrysiad yn y gymuned	2.5	0.0	0.0	2.6	2.2	1.4	1.5
	Rhybudd Khat neu Ganabis	22.7	24.6	37.0	24.8	25.3	28.6	26.9
	Hysbysiad Cosb am Anrhefn	3.4	0.0	8.8	0.0	4.5	4.7	3.3
	Gwŷs / cyhuddo drwy'r post	6.7	7.0	3.8	9.4	7.9	6.5	7